**Memorandwm Esboniadol ar gyfer:**

- Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024
- Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Dynodi Darparwyr) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig:

- Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024
- Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Dynodi Darparwyr) 2024

Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Vikki Howells AS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**1 Hydref 2024**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn darparu gwybodaeth sy'n cwmpasu dau ddarn cysylltiedig o is-ddeddfwriaeth sy'n cael eu gwneud o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022").

1.2 Mae Deddf 2022 yn darparu ar gyfer sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") a diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Sefydlwyd y Comisiwn fel endid cyfreithiol ar 15 Rhagfyr 2022[1] a diddymwyd CCAUC ar 1 Awst 2024[2]. Unwaith y caiff darpariaethau perthnasol Deddf 2022 eu cychwyn, bydd y Comisiwn yn gyfrifol am hyrwyddo, cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

1.3 Mae Rhan 2 o Ddeddf 2022 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru ("y gofrestr"). Bydd y gofrestr yn darparu'r mecanwaith cyfreithiol ar gyfer goruchwylio'n rheoleiddiol darparwyr addysg drydyddol cofrestredig yng Nghymru sy'n derbyn arian cyhoeddus, gan gynnwys cyllid grant gan y Comisiwn a chymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Bydd y gofrestr yn cymryd lle’r drefn oruchwylio rheoleiddiol ar gyfer addysg uwch a weithredwyd yn flaenorol gan CCAUC o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") ac a weithredir bellach gan y Comisiwn am gyfnod trosiannol.

1.4 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i bennu materion yn ymwneud â sefydlu a gweithredu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru.

1.5 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â:

- Rheoliadau’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024 ("y Rheoliadau cofrestru"), a
- Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Dynodi Darparwyr) 2024 ("y Rheoliadau dynodi").

1.6 Mae'r Rheoliadau cofrestru yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r categorïau cofrestru, cymhwystra darparwyr cofrestredig i dderbyn cymorth ariannol gan y Comisiwn at ddibenion addysg uwch, ymchwil neu arloesi, amodau cofrestru cychwynnol pellach, amodau cofrestru parhaus mandadol pellach, gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr yn y gofrestr, ac amgylchiadau eraill pan fo rhaid i'r Comisiwn ddileu darparwr cofrestredig o gategori o'r gofrestr.

---

[1] Yn rhinwedd dyfodiad adran 1 o Ddeddf 2022 i rym gan erthygl 2(a) o Orchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 1) 2022 OS 2022/1318.
[2] Yn rhinwedd dyfodiad adran 23 o Ddeddf 2022 i rym gan erthygl 2(b) o Orchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Darfodol a Trosiannol) 2024 OS 2024/806.

1.7 Bydd y Rheoliadau cofrestru, ynghyd â darpariaeth yn Rhan 2 o Ddeddf 2022 (ar ôl dod i rym), yn galluogi'r Comisiwn i wahodd a phenderfynu ar geisiadau cofrestru, sefydlu a chynnal y gofrestr, a gosod amodau cofrestru cychwynnol pellach ac amodau cofrestru parhaus.

1.8 Bydd y Rheoliadau cofrestru hefyd yn galluogi'r Comisiwn i ddarparu adnoddau ariannol i gategorïau penodedig o ddarparwyr cofrestredig at ddibenion addysg uwch, ymchwil neu arloesi – unwaith y bydd pwerau cyllido'r Comisiwn yn adran 88(1) (cymorth ariannol i ddarparwyr penodedig ar gyfer addysg uwch) a 105(1) (cymorth ariannol ar gyfer ymchwil ac arloesi) o Ddeddf 2022 yn dod i rym.

1.9 Mae'r Rheoliadau dynodi yn gwneud darpariaeth ynghylch pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr addysg drydyddol yng Nghymru yn sefydliad, gan nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan ddarparwr wrth wneud cais am ddynodiad yn sefydliad, ynghyd â'r broses benderfynu a'r weithdrefn ar gyfer tynnu dynodiad yn ôl.

1.10 Mae'r Rheoliadau cofrestru a'r Rheoliadau dynodi yn cael eu gosod gerbron y Senedd o dan y weithdrefn gadarnhaol a byddant yn dod i rym ar 11 Tachwedd 2024 (os cânt eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r pwerau sy'n galluogi i'r Rheoliadau cofrestru gael eu gwneud wedi'u cynnwys yn yr adrannau isod o Ddeddf 2022:

- Mae adran 25(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu un neu ragor o gategorïau cofrestru y mae'n rhaid i'r Comisiwn wneud darpariaeth ar eu cyfer yn y gofrestr, ac mae adran 25(3) yn nodi bod yn rhaid i gategori cofrestru a bennir ymwneud â darparu un neu ragor o fathau o addysg drydyddol.
- Mae adran 25(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wahardd cofrestru darparwr addysg drydyddol mewn un categori o'r gofrestr ar yr un pryd ag y mae wedi'i chofrestru yn un neu fwy o'r categorïau eraill.
- Mae adran 25(8) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr yn y gofrestr.
- Mae adran 27(6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi amodau cofrestru cychwynnol pellach ar gyfer unrhyw gategori cofrestru ac mae adran 27(7)(b)(i) a (ii) yn nodi'r math o amodau y caniateir eu pennu.

- Mae adran 32(2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu categori terfyn ffioedd.
- Mae adran 34 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer amodau cofrestru parhaus mandadol pellach sy'n gymwys i un neu ragor o'r categorïau cofrestru.
- Mae adran 41(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu amgylchiadau eraill pan fo rhaid dileu darparwr cofrestredig o un neu ragor o gategorïau'r gofrestr.
- Mae adran 88(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r categorïau o ddarparwr cofrestredig y caiff y Comisiwn ddarparu cymorth ariannol iddynt mewn perthynas â gwariant yr eir iddo at ddibenion darparu addysg uwch a chyfleusterau neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â darparu addysg uwch.
- Mae adran 105(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r categorïau o ddarparwr cofrestredig y caiff y Comisiwn ddarparu cymorth ariannol iddynt mewn perthynas â gwariant yr eir iddo at ddibenion ymchwil neu arloesi, neu mewn cysylltiad ag ymchwil neu arloesi.
- Mae adran 143(2)(a) yn galluogi rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2022 i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol.

3.2 Mae’r pwerau sy’n galluogi i’r Rheoliadau dynodi gael eu gwneud wedi’u cynnwys yn adran 83(4) o Ddeddf 2022. Mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch:

- gwneud ceisiadau am ddynodiad,
- gwneud dynodiadau o dan yr adran hon (gan gynnwys darpariaeth ynghylch y materion sydd i’w hystyried wrth benderfynu pa un ai i wneud dynodiad,
- tynnu dynodiad yn ôl gan gynnwys darpariaeth ynghylch y materion sydd i’w hystyried wrth benderfynu pa un ai i dynnu dynodiad yn ôl,
- effaith tynnu dynodiad yn ôl (gan gynnwys darpariaeth i ddarparwr y mae ei ddynodiad wedi’i dynnu’n ôl barhau i gael ei drin fel pe bai'n sefydliad at ddibenion rhagnodedig).

3.3 Mae adran 143(5) o Ddeddf 2022 yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniadau negyddol yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adrannau 25(5) a 25(8) o Ddeddf 2022.

3.4 Mae adran 143(3), (4)(b) a (c) o Ddeddf 2022 yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniadau negyddol yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adrannau 25(2), 27(6), 32(2)(b), 34, 41(2), 83(4), 88(3) and 105(4) o Ddeddf 2022.

3.5 O dan adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, gall darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gael ei chyfuno yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. O ganlyniad, mae'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i'r Rheoliadau cofrestru.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Y cefndir

4.1 Un o amcanion polisi cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu Deddf 2022 yw sefydlu sail ddeddfwriaethol effeithiol, gadarn a chynaliadwy ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol.

4.2 Ni all darparwyr y mae eu darpariaeth addysg uwch yn cael ei chyllido gan ffioedd dysgu yn bennaf gael eu rheoleiddio trwy delerau ac amodau'r Comisiwn yn unig, gan fod taliadau ffioedd dysgu yn ymrwymiad cytundebol rhwng darparwyr a'u myfyrwyr. Felly, mae goruchwyliaeth reoleiddiol gadarn o ddarparwyr y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi fel cyrsiau sy'n gymwys at ddibenion cymorth i fyfyrwyr yn hanfodol i ddiogelu buddiannau myfyrwyr, Llywodraeth Cymru a threthdalwyr.

4.3 Bydd y gofrestr newydd y darperir ar ei chyfer gan y Ddeddf yn cymryd lle'r drefn oruchwylio rheoleiddio addysg uwch gyfredol a weithredwyd gan CCAUC o dan Ddeddf 2015.

4.4 Bwriad y polisi yw y bydd y gofrestr yn darparu un porth rheoleiddio, gyda gofynion sylfaenol cyffredin sy'n berthnasol i'r ystod lawn o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys prifysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr eraill cyrsiau addysg uwch.

4.5 Bydd y gofrestr a'r trefniadau rheoleiddio cysylltiedig yn darparu'r fframwaith statudol i'r Comisiwn ar gyfer goruchwylio gweithgareddau darparwyr addysg drydyddol cofrestredig.

4.6 Amcanion polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydlu'r gofrestr yw:

- sicrhau rheoleiddio cadarn a chymesur ar gyfer sefydliadau yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael eu cefnogi gan grantiau a benthyciadau addysg uwch Llywodraeth Cymru,
- diogelu'r cyfraniad a wneir at fudd y cyhoedd sy'n deillio o gymhorthdal ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch,
- cadw a diogelu awtonomi sefydliadol a rhyddid academaidd darparwyr addysg uwch,
- sefydlu dull gweithredu y gellir eu addasu, os bydd angen, pe bai newidiadau i gyllid addysg drydyddol a'r amgylchedd rheoleiddio,
- galluogi ehangu'r categorïau cofrestru yn y dyfodol i gwmpasu ystod ehangach o addysg drydyddol pe bai angen polisi'n codi.

4.7 Caiff darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru wneud cais i'r Comisiwn i ddod yn ddarparwyr cofrestredig, ac mae'n ofynnol i'r Comisiwn gofrestru'r darparwr mewn categori o'r gofrestr os yw'r darparwr yn bodloni'r amodau a nodir yn adran 25(4) o Ddeddf 2022, sef:

a. os yw ei gorff llywodraethu yn gwneud cais iddo gael ei gofrestru yn y categori,

b. os yw'n "ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru",
c. os yw'n darparu'r math o addysg drydyddol sy'n ymwneud â'r categori, neu mae'r math hwnnw o addysg drydyddol yn cael ei ddarparu ar ei ran,
d. os yw'n bodloni'r amodau cofrestru cychwynnol perthnasol ar gyfer y categori cofrestru a geisir, fel y nodir yn adran 27(1) a'r Rheoliadau cofrestru (ynghyd ag unrhyw reoliadau pellach a wneir o dan adran 27(6) o Ddeddf 2022),
e. os nad yw cofrestru wedi'i wahardd gan ddarpariaeth a wneir yn y Rheoliadau cofrestru (ynghyd ag unrhyw reoliadau pellach a wneir o dan adran 25(5) o Ddeddf 2022), ac
f. os yw'r cais a gyflwynir gan y darparwr yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodir gan y Comisiwn o dan adran 25(7) o Ddeddf 2022.

4.8 Gwneir darpariaeth bellach mewn perthynas â'r materion a restrir ym mwledi c i e yn y Rheoliadau cofrestru, a darperir esboniad pellach yn ddiweddarach yn y Memorandwm Esboniadol hwn.

4.9 Mae adran 144 o Ddeddf 2022 yn diffinio "darparwr addysg drydyddol yng Nghymru" fel sefydliad sy'n darparu addysg drydyddol, gan gynnwys addysg drydyddol a ddarperir ar ei ran, y cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Nid yw "sefydliad" yn cael ei ddiffinio at ddibenion Deddf 2022, ac felly mae i'r term ei ystyr arferol. Fodd bynnag, mae adran 144(1) yn cadarnhau bod "sefydliad" at ddibenion Deddf 2022 yn cynnwys unrhyw ddarparwr hyfforddiant (pa un a fyddai'r darparwr hyfforddiant fel arall yn cael ei ystyried yn sefydliad ai peidio). Diffinnir "darparwr hyfforddiant" yn adran 144(9) o Ddeddf 2022 fel person sy'n darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau o weithlu'r ysgol.

<u>Y Rheoliadau dynodi</u>

4.10 Mae adran 83 o Ddeddf 2022 a'r Rheoliadau dynodi yn darparu'r sail i ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru, nad yw'n sefydliad, allu gwneud cais i Weinidogion Cymru i gael ei ddynodi'n sefydliad at ddiben Deddf 2022.

4.11 Ni fydd dynodiad yn "sefydliad" ynddo'i hun yn rhoi unrhyw fuddion i ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru ac eithrio ei alluogi i fodloni'r gofyniad i fod yn "ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru" fel y'i diffinnir yn adran 144(1) ac fel sy'n ofynnol gan adran 25(4)(b) o Ddeddf 2022, er mwyn gwneud cais i gofrestru. Bydd angen i unrhyw ymgeisydd sy'n dymuno cofrestru fodloni disgwyliadau'r Comisiwn o ran yr amodau cofrestru cychwynnol (adran 25(4)(d)) ynghyd â'r gofynion cofrestru eraill a nodir yn adran 25(4).

4.12 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg drydyddol sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru yn debygol o gael eu hystyried yn sefydliadau, er enghraifft, prifysgolion a cholegau addysg bellach. Felly, bydd y sefydliadau hynny'n gymwys i wneud cais cofrestru os ydynt yn darparu'r math o addysg drydyddol sy'n ymwneud â'r categori cofrestru y maent yn

dymuno gwneud cais iddo a'u bod yn bodloni'r meini prawf yn adran 25(4) o Ddeddf 2022 (fel y nodir ym mharagraff 4.7 uchod).

4.13 Fodd bynnag, efallai bod darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru hefyd na ellir eu hystyried yn sefydliad yn yr ystyr draddodiadol (er enghraifft, cwmni a sefydlwyd i ddarparu addysg uwch), ond sy'n dymuno cofrestru gyda'r Comisiwn.

4.14 Mae'r Rheoliadau dynodi (rheoliad 3) yn pennu bod yn rhaid i gais am ddynodiad yn sefydliad gael ei wneud yn ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys:

- enw a phrif gyfeiriad y darparwr, ynghyd ag unrhyw enwau eraill y mae'n gweithredu odanynt,
- copi o ddogfennau llywodraethu’r ymgeisydd,
- os mai elusen yw'r darparwr, ei rif cofrestru elusen, a’r rheoleiddiwr neu reoleiddwyr elusennau y mae wedi’i gofrestru gydag ef neu gyda hwy (neu’r rheswm pam nad yw cofrestriad o’r fath yn ofynnol),
- disgrifiad o'r addysg drydyddol sy'n cael ei darparu yng Nghymru, gan gynnwys lefelau'r cyrsiau (drwy gyfeirio at Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru), a disgrifiad o'r dyfarniadau y caniateir eu rhoi i bersonau sy'n ymgymryd â chyrsiau gyda'r darparwr,
- nifer y personau sy’n ymgymryd ag addysg drydyddol yr ymgeisydd ar ddyddiad y cais, a faint ohonynt sy’n gwneud hynny yng Nghymru,
- y lleoliadau lle y mae’r ymgeisydd yn darparu addysg drydyddol,
- cyfeiriad unrhyw wefan a gynhelir gan yr ymgeisydd mewn cysylltiad â’i ddarpariaeth o addysg drydyddol,
- copi o unrhyw brosbectws a gyhoeddir gan yr ymgeisydd mewn cysylltiad â’i ddarpariaeth o addysg drydyddol.

4.15 Mae'r wybodaeth benodedig yn ffurfio'r manylion craidd sy'n ofynnol i ganiatáu i Weinidogion Cymru wirio statws y darparwr ac a fyddai fel arall yn bodloni'r diffiniad o "ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru" (a nodir yn adran 144(1) o Ddeddf 2022) cyn gwneud penderfyniad ynghylch dynodi'r darparwr yn "sefydliad".

4.16 Mae'r Rheoliadau dynodi hefyd yn nodi, yn rheoliad 4, y broses gwneud penderfyniadau a'r weithdrefn ar gyfer tynnu dynodiad yn "sefydliad" yn ôl. Wrth benderfynu pa un ai i dynnu dynodiad yn ôl, rhaid i Weinidogion

Cymru ystyried unrhyw gais y mae darparwr wedi'i wneud i dynnu ei ddynodiad yn ôl.

4.17 Os yw Gweinidogion Cymru yn tynnu dynodiad darparwr yn ôl, rhaid iddynt roi hysbysiad ysgrifenedig i'r darparwr sy'n cynnwys y rhesymau dros y penderfyniad a'r dyddiad y mae'r tynnu'n ôl yn cymryd effaith.

4.18 Fodd bynnag, mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau dynodi yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru dynnu dynodiad darparwr yn ôl tra ei fod wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn, neu os nad yw wedi'i gofrestru bellach ond ei fod yn cael ei drin fel pe bai'n dal i fod wedi'i gofrestru am unrhyw reswm. Gall sefyllfa o'r fath godi pe bai trefniadau trosiannol yn cael eu rhoi ar waith yn dilyn datgofrestru darparwr lle mae myfyrwyr yn cwblhau eu hastudiaethau.

4.19 Os na wneir y Rheoliadau dynodi ni fydd gweithdrefn i'w dilyn gan ddarparwr sy'n ceisio dynodiad yn "sefydliad" at ddiben gwneud cais cofrestru. Gallai hyn gael effaith andwyol ar ddarparwr addysg drydyddol ansefydliadol yng Nghymru sy'n dymuno gwneud cais i gofrestru gyda'r Comisiwn.

Y Rheoliadau cofrestru

4.20 Bydd y Rheoliadau cofrestru yn darparu'r sail ar gyfer gweithredu'r gofrestr a'r oruchwyliaeth reoleiddiol arfaethedig gan y Comisiwn. Bydd y manylion gweithredol, yn enwedig y disgwyliadau y mae'n rhaid i ddarparwyr sy'n gwneud cais i gofrestru eu bodloni a'r gofynion cydymffurfio parhaus sy'n berthnasol i ddarparwyr cofrestredig, yn faterion i'r Comisiwn benderfynu arnynt. Felly, nid yw'r materion hyn yn cael eu hystyried yn y Memorandwm Esboniadol hwn. Mae'r adrannau isod yn nodi diben ac effaith fwriedig y materion a gynhwysir yn y Rheoliadau.

4.21 Os na wneir y Rheoliadau cofrestru i bennu'r categorïau cofrestru, ni fydd Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu dyletswydd statudol yn adran 25(2) o Ddeddf 2022 ac ni fydd y Comisiwn yn gallu sefydlu'r gofrestr. Os na wneir y materion eraill y darperir ar eu cyfer yn y Rheoliadau, yna ni fydd y gofrestr yn gweithredu fel y bwriadwyd.

*Categorïau cofrestru*

4.22 Mae adran 25(2) o Ddeddf 2022 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu un neu ragor o gategorïau cofrestru y mae'n rhaid i'r Comisiwn wneud darpariaeth ar eu cyfer yn y gofrestr. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Ddeddf pan gafodd ei chyflwyno i'r Senedd, yn nodi cynigion ar gyfer dau gategori cofrestru i ddarparwyr addysg uwch yn unig yn y lle cyntaf. Er bod y Ddeddf yn darparu ar gyfer y posibilrwydd o ehangu'r categorïau cofrestru i gwmpasu ystod ehangach o addysg drydyddol, bydd hyn yn fater i'w ystyried yn y dyfodol unwaith y bydd y gofrestr wedi'i sefydlu ar gyfer darparwyr addysg uwch.

4.23 Mae'r Rheoliadau cofrestru (rheoliad 3) yn gwneud darpariaeth ar gyfer dau gategori cofrestru fel a ganlyn:

- **Addysg Uwch Craidd ("Craidd")** – Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i ddynodi cwrs yn awtomatig at ddiben cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau addysg uwch ar lefel ffioedd uwch, sydd ar hyn o bryd yn £9250 y flwyddyn (yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion eraill yn y rheoliadau cymorth myfyrwyr perthnasol). Byddant hefyd yn gymwys i gael cyllid grant gan y Comisiwn at ddibenion addysg uwch, ymchwil neu arloesi, a byddant yn ddarostyngedig i amodau sy'n berthnasol i'r categori.

- **Addysg Uwch Amgen ("Amgen")** – Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i ddynodi cwrs yn awtomatig at ddiben cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau addysg uwch ar lefel ffioedd is, sef £6165 y flwyddyn ar hyn o bryd (yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion eraill yn y rheoliadau cymorth myfyrwyr perthnasol). Ni fyddant yn gymwys i gael cyllid addysg uwch, ymchwil nac arloesi gan y Comisiwn, a byddant yn ddarostyngedig i amodau sy'n berthnasol i'r categori.

4.24 Bydd y ddau gategori cofrestru yn galluogi darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, sy'n darparu addysg uwch neu y mae addysg uwch yn cael ei darparu ar eu rhan, i geisio cofrestru gyda'r Comisiwn.

4.25 Nid yw'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr addysg uwch mewn perthynas â ffioedd dysgu neu gostau cynhaliaeth.

4.26 Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch perthnasol darparwyr cofrestredig yn awtomatig at ddiben cymorth statudol i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.

*Cofrestru mewn mwy nag un categori*

4.27 Mae'r Rheoliadau cofrestru (rheoliad 4) yn darparu na chaiff y Comisiwn gofrestru darparwr mewn mwy nag un categori o'r gofrestr ar yr un pryd.

4.28 Mae gwahardd cofrestru darparwyr yn y categorïau Craidd ac Amgen ar yr un pryd yn angenrheidiol gan y bydd rhai o'r rhwymedigaethau a'r manteision sy'n codi o'r ddau gategori cofrestru yn wahanol. Byddai caniatáu i ddarparwyr gofrestru yn y ddau gategori ar yr un pryd yn golygu na fydd y gofrestr yn gweithio fel y bwriadwyd.

4.29 Darparwyr unigol fydd yn penderfynu a ydynt am gofrestru gyda'r Comisiwn ac ym mha gategori yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Dylai darparwyr ystyried rhwymedigaethau a manteision cofrestru cyn gwneud

cais cofrestru.

4.30 Yn unol ag adran 27(2) o Ddeddf 2022, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi dogfen sy'n pennu'r gofynion y mae'n rhaid iddynt gael eu diwallu er mwyn iddo gael ei fodloni o ran yr amodau cofrestru cychwynnol yn adran 27(1). Caiff y Comisiwn ddiwygio'r gofynion hynny ac os felly, rhaid iddo gyhoeddi dogfen ddiwygiedig sy'n pennu'r gofynion fel y'u diwygiwyd. Cyn cyhoeddi'r ddogfen neu'r ddogfen ddiwygiedig, rhaid i'r Comisiwn, os yw'n ymddangos ei bod yn briodol gwneud hynny, ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

4.31 Mae adran 28(1) o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn benderfynu ynghylch amodau cofrestru parhaus cyffredinol a'u cyhoeddi. Caiff y Comisiwn ddiwygio'r amodau ac os felly, rhaid iddo eu cyhoeddi fel y'u diwygiwyd. Cyn penderfynu'r amodau neu eu diwygio, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol os yw'n ymddangos ei bod yn briodol gwneud hynny (adran 28(5) i (7) o Ddeddf 2022).

4.32 Mae adran 35 o Ddeddf 2022 yn creu dyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi canllawiau ar gyfer darparwyr cofrestredig ynghylch amodau cofrestru parhaus.

*Categori cofrestru y mae amod terfyn ffioedd yn berthnasol iddo*

4.33 Mae'r Rheoliadau cofrestru (rheoliad 5) yn pennu mai'r categori Craidd yw'r categori y mae terfyn ffioedd i fod yn gymwys mewn perthynas ag ef. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cofrestru yn y categori hwn gydymffurfio ag amod terfyn ffioedd parhaus a chynhyrchu datganiad terfyn ffioedd os ydynt yn cynnig cyrsiau sy'n destun ffioedd cwrs rheoleiddiedig. Bydd rheoliadau pellach yn cael eu gwneud maes o law i bennu'r terfyn ffioedd.

4.34 Mae'r dull hwn yn sicrhau y bydd yn ofynnol i ddarparwyr sy'n elwa ar gael eu cyrsiau israddedig llawnamser wedi'u dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd dysgu ar y gyfradd uwch gydymffurfio â therfyn ffioedd dysgu. Mae'r trefniant hwn yn debyg i'r hyn a weithredir gan CCAUC ar hyn o bryd o dan Ddeddf 2015.

*Cymhwystra i dderbyn cymorth ariannol gan y Comisiwn*

4.35 Mae Rhan 3 o Ddeddf 2022 yn darparu ar gyfer cysylltiad rhwng y gofrestr a phwerau'r Comisiwn i gyllido ystod o addysg drydyddol yn ogystal ag ymchwil neu arloesi.

4.36 Mae Deddf 2022 yn galluogi'r Comisiwn i gyllido categorïau o ddarparwyr cofrestredig a bennir mewn rheoliadau at ddiben cefnogi addysg uwch a ddarperir gan neu ar ran darparwyr o'r fath (adran 88(1) o Ddeddf 2022), ynghyd â gwneud gwaith ymchwil neu arloesi (adran 105(1) o Ddeddf 2022).

4.37 Mae'r Rheoliadau cofrestru yn nodi y bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori Craidd yn gymwys i gael cymorth ariannol gan y Comisiwn at ddibenion addysg uwch (rheoliad 6), neu ymchwil neu arloesi (rheoliad 7).

4.38 Bydd cyllido gweithgareddau addysg uwch ac ymchwil neu arloesi yn fater i'r Comisiwn benderfynu arno. Gall y Comisiwn, er enghraifft, ddewis darparu cyllid mewn perthynas â chyrsiau sy'n ddrud i'w darparu, clustnodi cyllid ar gyfer mentrau penodedig neu gymell darparu cyrsiau penodol.

*Amodau cofrestru cychwynnol pellach*

4.39 Mae'r amodau cofrestru cychwynnol sy'n berthnasol i'r ddau gategori cofrestru wedi'u nodi ar wyneb Deddf 2022 yn adran 27(1) ac yn ymwneud â'r materion canlynol:

- ansawdd y math o addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran yr ymgeisydd y mae'r categori o'r gofrestr yn ymwneud ag ef
- effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli'r ymgeisydd (gan gynnwys ei drefniadau rheoli ariannol)
- cynaliadwyedd ariannol yr ymgeisydd
- effeithiolrwydd trefniadau'r ymgeisydd ar gyfer cefnogi a hybu lles ei fyfyrwyr a'i staff
- effeithiolrwydd unrhyw drefniadau dilysu wrth alluogi'r ymgeisydd i'w fodloni ei hun o ansawdd yr addysg sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster o dan y trefniadau hynny

4.40 Mae Deddf 2022 yn nodi set helaeth o amodau cychwynnol y mae'n rhaid eu bodloni gan ddarparwyr sy'n ceisio cofrestru gyda'r Comisiwn. O safbwynt pennu amodau cofrestru cychwynnol pellach, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn lleihau gofynion statudol ychwanegol, gan bennu'r amodau cofrestru ychwanegol hynny yn unig sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y drefn oruchwylio reoleiddiol yn gweithredu fel y'i bwriadwyd, neu i warchod buddiannau myfyrwyr.

4.41 Mae'r Rheoliadau cofrestru yn darparu i'r materion isod hefyd fod yn amodau cofrestru cychwynnol:

- **amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd fod yn elusen**, sy'n berthnasol i'r categori Craidd yn unig (rheoliad 8(a)). Mae hyn yn barhad o bolisi cyfredol Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf 2015.

- **amod sy'n ymwneud â'r wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr am y darparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau â myfyrwyr**, sy'n berthnasol i'r categori Craidd (rheoliad 8(b)) a'r categori Amgen (rheoliad 9).

4.42 Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y gallai darparwyr, fel rhan o fodloni'r amod uchod mewn perthynas â darparu gwybodaeth i ddarpar

fyfyrwyr, ddangos eu bod wedi rhoi sylw dyledus i gydymffurfio â chyfraith diogelu defnyddwyr, ac i gyngor yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

4.43 Fel y nodir ym mharagraff 4.31, rhaid i'r Comisiwn, os yw'n ymddangos iddo ei bod yn briodol gwneud hynny, ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol cyn cyhoeddi neu ddiwygio dogfen o dan adran 27(2) sy'n pennu'r gofynion y mae'n rhaid iddynt gael eu cyflawni er mwyn iddo gael ei fodloni o ran yr amodau cofrestru cychwynnol a restrir yn adran 27(1).

4.44 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Comisiwn ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol wrth ddatblygu ei ddisgwyliadau ar gyfer bodloni'r amodau cofrestru cychwynnol a'u diwygio yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod darpar ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gofynion y mae'n rhaid iddynt eu bodloni, a bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle i wneud sylwadau ar gynigion y Comisiwn. Ni fydd y disgwyliadau hynny yn hysbys nes i'r Comisiwn ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol gyda rhanddeiliaid.

*Amodau cofrestru parhaus mandadol pellach*

4.45 Yn ogystal â'r amodau cofrestru parhaus mandadol a nodir ar wyneb Deddf 2022, caiff Gweinidogion Cymru bennu amodau cofrestru parhaus mandadol pellach mewn rheoliadau a wneir yn unol ag adran 34 o Ddeddf 2022.

4.46 Mae'r amodau cofrestru parhaus mandadol, y mae'n rhaid eu cymhwyso i bob darparwr cofrestredig sydd wedi'u cofrestru mewn unrhyw gategori, wedi'u pennu yn adrannau 31 a 33 o Ddeddf 2022. Mae'r amodau cofrestru hyn yn ymwneud â'r holl faterion a bennir yn yr amodau cofrestru cychwynnol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig:

- hysbysu'r Comisiwn am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar gywirdeb yr wybodaeth a gynhwysir yng nghofnod y darparwr yn y gofrestr
- os rhoddir hysbysiad gan y Comisiwn, cael cynllun diogelu dysgwyr yn ei le sydd wedi’i gymeradwyo gan y Comisiwn ar neu cyn y dyddiad a bennir yn yr amod a rhoi effaith i'r cynllun
- cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi’u cynnwys yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a gyhoeddir gan y Comisiwn
- pennu canlyniadau mesuradwy mewn perthynas â chyfle cyfartal sy'n ymwneud â chynyddu cyfranogiad, cynyddu cyfraddau cadw, lleihau bylchau cyrhaeddiad a darparu cymorth mewn perthynas â dysgwyr sydd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- rhoi sylw i gyngor neu ganllawiau a roddir gan y Comisiwn wrth arfer ei swyddogaethau
- darparu i'r Comisiwn, neu i berson sydd wedi'i awdurdodi gan y Comisiwn, unrhyw wybodaeth, cymorth a mynediad i gyfleusterau, systemau ac offer y darparwr sy'n rhesymol ofynnol gan y Comisiwn at ddiben arfer ei swyddogaethau goruchwylio

rheoleiddiol.

4.47 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y materion uchod yn cynnig sylfaen gynhwysfawr a chadarn ar gyfer goruchwyliaeth barhaus y Comisiwn o ddarparwyr cofrestredig.

4.48 Fel ag yn achos yr amodau cofrestru cychwynnol pellach (y manylir arnynt ym mharagraff 4.40), o safbwynt pennu amodau cofrestru parhaus mandadol pellach, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn lleihau gofynion statudol ychwanegol, gan bennu'r amodau ychwanegol hynny yn unig sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y drefn oruchwylio reoleiddiol yn gweithredu fel y'i bwriadwyd, neu i warchod buddiannau myfyrwyr.

4.49 Bydd yr amod cofrestru parhaus mandadol canlynol, fel y nodir yn rheoliad 10(a), yn gymwys i'r categori Craidd:

- **amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr fod yn elusen**

4.50 Gan nad yw'r Rheoliadau cofrestru yn darparu ar gyfer eu diffiniad eu hunain o 'elusen', mae'r diffiniad o elusen a ddarperir yn Neddf Elusennau 2011 yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau. Mae adran 1 o Ddeddf Elusennau 2011 yn darparu fel a ganlyn:

> (1) At ddibenion cyfraith Cymru a Lloegr, ystyr "elusen" yw sefydliad sydd—
> (a) wedi ei sefydlu at ddibenion elusennol yn unig, ac
> (b) yn ddarostyngedig i reolaeth yr Uchel Lys wrth arfer ei awdurdodaeth mewn perthynas ag elusennau.
>
> (2) Nid yw'r diffiniad o "elusen" yn is-adran (1) yn gymwys at ddibenion deddfiad os yw diffiniad gwahanol o'r term hwnnw yn gymwys at y dibenion hynny yn rhinwedd y deddfiad hwnnw neu unrhyw ddeddfiad arall.

4.51 Mae'r Rheoliadau cofrestru (rheoliad 10(b) a (c) a rheoliad 11(a) a (b)) yn darparu ar gyfer gwneud yr amodau cofrestru parhaus canlynol yn gymwys i'r ddau gategori:

- **amod yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr am ddarparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau â myfyrwyr**

4.52 Fel ag yn achos yr amod cofrestru cychwynnol cyfatebol, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai darparwyr, fel rhan o fodloni'r amod uchod, yn dangos eu bod wedi rhoi sylw dyledus i gydymffurfio â chyfraith diogelu defnyddwyr, ac i gyngor yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

- **amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr hysbysu'r Comisiwn am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar statws y darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru**

4.53 Rhaid i ddarparwr fod yn ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru er mwyn cofrestru gyda'r Comisiwn, fel y nodir yn adran 25(4)(b). Bydd ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig ddilyn amod cofrestru parhaus, gan fynnu eu bod yn hysbysu'r Comisiwn ynghylch unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar statws darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru, yn sicrhau bod darparwyr cofrestredig o dan rwymedigaeth i roi gwybod i'r Comisiwn am yr holl faterion a allai effeithio ar yr agwedd hon ar eu cofrestriad.

4.54 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod yr amodau cofrestru a nodir uchod i fynd i'r afael â materion allweddol ychwanegol yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r system oruchwylio reoleiddiol i weithredu fel y bwriadwyd. Y bwriad yw gwarchod buddiannau myfyrwyr gan leihau ar yr un pryd y baich rheoleiddiol ychwanegol a roddir ar ddarparwyr y tu hwnt i'r amodau parhaus mandadol a bennir ar wyneb Deddf 2022.

4.55 Wrth benderfynu ynghylch amodau cofrestru parhaus cyffredinol a'u cyhoeddi o dan adran 28(1) o Ddeddf 2022, bydd y Comisiwn yn gallu cyflwyno amodau cofrestru parhaus pellach os bydd yn ystyried bod angen gwneud hynny (yn ddarostyngedig i'r gofynion ymgynghori perthnasol y darperir ar eu cyfer yn adran 28(7) Deddf 2022).

*Datgofrestru mandadol os na fydd y statws elusennol yn cael ei fodloni mwyach*

4.56 Mae adran 41 o Ddeddf 2022 yn rhoi pŵer i'r Comisiwn, a dyletswydd arno, i ddileu darparwr o gategori o'r gofrestr, o dan rai amgylchiadau. Gall darparwr cofrestredig hefyd wneud cais i ddatgofrestru'n wirfoddol yn unol ag adran 43 o Ddeddf 2022.

4.57 Mae adran 41(3) o Ddeddf 2022 yn darparu y caiff y Comisiwn ddileu darparwr cofrestredig o gategori o'r gofrestr os yw'n ymddangos i'r Comisiwn bod y darparwr wedi torri un o'i amodau cofrestru parhaus ac:

- os yw'r Comisiwn wedi rhoi cyfarwyddyd yn flaenorol o dan adran 39 (cyfarwyddydau mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus) o Ddeddf 2022 i'r darparwr hwnnw mewn perthynas â thorri amod cofrestru parhaus, ac mae'n ymddangos i'r Comisiwn bod yr amod hwnnw wedi'i dorri eto, neu ei fod yn cael ei dorri'n barhaus, neu os torrwyd amod gwahanol, neu
- os yw'r Comisiwn o'r farn na fyddai rhoi cyfarwyddyd o dan adran 39 yn ddigonol i ymdrin â'r torri

4.58 Yn unol ag adran 41(1) o Ddeddf 2022, rhaid i'r Comisiwn ddileu darparwr o gategori o'r gofrestr os nad yw'n 'ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru' mwyach, neu os nad yw'n darparu'r math o addysg drydyddol sy'n berthnasol i'w gategori cofrestru mwyach, neu na ddarperir y math hwnnw o addysg drydyddol ar ei ran mwyach. Y rheswm am hyn yw na fyddai'r darparwr bellach yn bodloni'r amodau a nodir yn adran 25(4)(b) neu (c) o Ddeddf 2022.

4.59 Yn ogystal â'r amgylchiadau a nodir ar wyneb Deddf 2022, caiff Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau o dan adran 41(2) o Ddeddf 2022, bennu amgylchiadau eraill pan fo rhaid dileu darparwr cofrestredig o un neu ragor o gategorïau'r gofrestr neu o bob categori o'r gofrestr.

4.60 Y polisi cyfredol, fel y darperir ar ei gyfer drwy'r drefn oruchwylio reoleiddiol a nodir yn Neddf 2015, yw bod y gyfradd uwch o gymorth i fyfyrwyr ond ar gael i'r rhai sy'n dilyn cyrsiau darparwyr sydd â statws elusennol. Dyma'r safbwynt polisi o hyd, a dyna pam y cynhwysir yr amodau cychwynnol a pharhaus pellach mewn perthynas â statws elusennol darparwr sydd wedi'i gofrestru yn y categori Craidd.

4.61 Mae'r Rheoliadau cofrestru (rheoliad 13) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn dynnu darparwr cofrestredig o'r categori Craidd os yw'r Comisiwn yn fodlon nad yw'r darparwr yn elusen.

4.62 Bwriad y defnydd o'r geiriad 'nad elusen' yn rheoliad 13, yn hytrach na, er enghraifft, 'nad elusen, bellach', yw cwmpasu amgylchiadau lle mae darparwr yn colli statws elusennol neu lle bernid drwy gamgymeriad bod darparwr yn elusen adeg ei gofrestru gyda'r Comisiwn.

4.63 Mae darparwr yn fwyaf tebygol o golli ei statws elusennol oherwydd camgofrestru. Gall hyn ddigwydd pan fo darparwr, nad yw erioed wedi bod yn elusen, wedi’i roi ar y gofrestr elusennau drwy gamgymeriad. Gallai hyn ddigwydd oherwydd bod y Comisiwn Elusennau wedi cael gwybodaeth anghywir ar adeg cofrestru, oherwydd bod y darparwr wedi'i ddatgelu i fod yn ffug, neu oherwydd camgymeriad yn ystod y broses.

4.64 Gwnaed y newid hwn er mwyn osgoi'r perygl o annhegwch yn y system. Pe na bai dileu darparwr o'r categori cofrestru Craidd yn fandadol pan fo'n colli ei statws elusennol, a phe bai'r Comisiwn yn dewis peidio ag arfer ei bŵer disgresiwn, gallai darparwr aros yn y categori Craidd a bydd eu gyrsiau yn parhau i gael eu dynodi ar gyfer y swm uwch o gymorth ffioedd i fyfyrwyr a bod yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn.

4.65 Byddai hyn yn gwahaniaethu yn erbyn y darparwyr hynny a gofrestrir yn y categori Amgen nad oeddent yn gallu cofrestru yn y categori Craidd - ac elwa ar gael eu dynodi ar gyfer y swm uwch o gymorth ffioedd i fyfyrwyr - am nad oes ganddynt statws elusennol.

4.66 Gallai darparwr a ddatgofrestrir o'r categori Craidd, yn sgil colli statws elusennol, ddewis gwneud cais i gofrestru yn y categori Amgen er hynny, ac felly cael ei ddynodi ar gyfer y gyfradd is o gymorth i fyfyrwyr.

4.67 Mae'r Comisiwn Elusennau wedi datgan yn gyhoeddus mai ei brif rôl yw diogelu asedau elusennol a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol; sy'n golygu na fydd hyd yn oed camreoli neu gamymddwyn yn arwain yn awtomatig at sefydliad yn colli ei statws elusennol. Ei ddull gweithredu datganedig yw y bydd yn ceisio cymhwyso

ei ystod eang o bwerau, megis rhewi asedau, atal neu gael gwared ar ymddiriedolwyr a rhoi cyfarwyddydau, i helpu'r elusen yn ôl ar y trywydd iawn a pharhau â'i chenhadaeth elusennol, yn hytrach na dileu sefydliad o'r gofrestr ar unwaith.

4.68 O ganlyniad, mae'n annhebygol y byddai sefydliad yn colli ei statws elusennol heb rybudd na chyfleoedd sylweddol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion. Mae'n ymddangos, felly, bod ei gwneud yn ofynnol dileu darparwr o'r categori Craidd, os nad yw bellach yn bodloni'r amodau penodedig ac nad yw wedi cymryd y camau angenrheidiol i unioni'r sefyllfa, yn rhesymol.

*Gwybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gofrestr*

4.69 Mae'r Rheoliadau cofrestru yn pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr yn y gofrestr. Nid yw Llywodraeth Cymru yn dymuno bod yn rhy rhagnodol wrth nodi'r gofynion gwybodaeth sy'n fandadol, ac mae'n ystyried mai'r gofynion a nodir yn rheoliad 12 yw'r wybodaeth leiaf y dylid ei chynnwys yng nghofnod darparwr yn y gofrestr.

4.70 Bwriad y gofrestr yw bod yn ffynhonnell gyhoeddus o wybodaeth mewn perthynas â goruchwyliaeth reoleiddiol y Comisiwn o ddarparwyr cofrestredig. Ni fwriedir iddi fod yn gyfeiriadur cyrsiau na chynnwys gwybodaeth sy'n debygol o newid yn aml.

4.71 Mae rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth ganlynol gael ei chynnwys yng nghofnod darparwr yn y gofrestr at ddibenion adran 25(8) o Ddeddf 2022:

- **enw'r darparwr, manylion cyswllt, prif leoliad busnes a gwefan** - bydd yr wybodaeth hon yn caniatáu i ddefnyddwyr y gofrestr gysylltu â'r darparwr drwy'r post, drwy e-bost neu dros y ffôn, cael gwybodaeth am yr hyn y mae'r darparwr yn ei gynnig, a nodi ei leoliad. Drwy gynnwys cyfeiriad y lleoliad busnes, bydd modd i'r Comisiwn, neu eraill, gyflwyno achos yn erbyn y darparwr.

- **y categori cofrestru a'r dyddiad cofrestru** – mae'r wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn i ddefnyddwyr y gofrestr ddeall y sicrwydd rheoleiddiol sydd gan y Comisiwn mewn perthynas â darparwr, gan gynnwys yr amodau sy'n berthnasol iddo, a chymhwystra'r darparwr o ran dynodi cwrs at ddiben cymorth i fyfyrwyr a chyllid grant gan y Comisiwn.

- **y math o addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran y darparwr** - bydd yr wybodaeth hon yn caniatáu i ddefnyddwyr y gofrestr ddarganfod y math o addysg drydyddol a gynigir gan y darparwr.

- **p'un a yw'r darparwr yn elusen a rhif cofrestru'r elusen (lle bo hynny'n berthnasol)** - bydd defnyddwyr y gofrestr yn gallu gwirio a

yw darparwr cofrestredig yn elusen.

- **p'un a yw'r darparwr yn gwmni, ac os felly rhif cofrestru'r cwmni (lle bo hynny'n berthnasol)** - bydd defnyddwyr y gofrestr yn gallu gwirio a yw darparwr cofrestredig yn gwmni.

- **a oes amod terfyn ffioedd yn berthnasol i gofrestriad y darparwr, ac os felly manylion am sut i gael gafael ar ddatganiad terfyn ffioedd y darparwr** – bydd yr wybodaeth hon yn hysbysu defnyddwyr y gofrestr p'un a oes gofyn i ddarparwr gydymffurfio â therfyn ffioedd dysgu, ac os felly bydd yn cyfeirio defnyddwyr at ddatganiad terfyn ffioedd y darparwr.

- **p'un a oes gan y darparwr deitl prifysgol** - bydd yr wybodaeth hon yn caniatáu i ddefnyddwyr y gofrestr wirio a oes gan y darparwr hawl i ddefnyddio'r term "prifysgol" yn ei deitl. Nid yw pob darparwr addysg uwch yn brifysgol. Mae "prifysgol" yn derm gwarchodedig, a rhaid i unrhyw sefydliad sy'n dymuno defnyddio'r term yn ei deitl gael ei awdurdodi i wneud hynny.

- **p'un a oes gan y darparwr bwerau dyfarnu graddau, ac os felly pa fath o bwerau** – bydd y gofrestr yn cynnwys gwybodaeth ynghylch a yw darparwr wedi'i awdurdodi i ddyfarnu graddau a addysgir neu raddau ymchwil, neu'r ddau, yn ogystal â'r pŵer a'i hawdurdododd, disgrifiad o'r dyfarniadau, a phryd yr awdurdodwyd y pŵer i ddyfarnu graddau. Bydd defnyddwyr y gofrestr yn gallu gwirio a yw darparwr wedi'i awdurdodi i ddyfarnu graddau a addysgir, graddau ymchwil, neu'r ddau, yn ogystal â phryd y cafodd darparwr ei awdurdodi i ddyfarnu graddau.

- **a yw'r darparwr wedi ymrwymo i drefniadau dilysu** - byddgan ddarparwyr sy'n cynnig cyrsiau sy'n arwain at raddau, ond nad oes ganddynt eu pwerau dyfarnu graddau eu hunain, gytundeb dilysu gyda darparwr sy'n meddu ar y pwerau hynny. Bydd y gofrestr yn nodi a yw darparwr wedi ymrwymo i drefniadau dilysu. Bydd defnyddwyr y gofrestr yn gallu gwirio pa ddarparwyr sydd wedi'u hawdurdodi i gynnig cyrsiau sy'n arwain at raddau.

- **a yw'r darparwr wedi ymrwymo i drefniadau breinio** - caiff darparwyr cofrestredig wneud trefniadau partneriaeth â darparwyr eraill sy'n darparu cyrsiau ar eu rhan, neu gall darparwyr cofrestredig hefyd ddarparu cyrsiau ar ran darparwr arall. Bydd cael yr wybodaeth hon yn y gofrestr yn galluogi defnyddwyr y gofrestr i nodi p'un a yw darparwr cofrestredig wedi ymrwymo i drefniadau breinio.

4.72 Nid yw'r materion a bennir yn y Rheoliadau cofrestru yn cyfyngu ar allu'r Comisiwn i gynnwys gwybodaeth bellach yn y gofrestr pe bai'r Comisiwn yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

4.73 Mae'r dull gweithredu hwn yn cydbwyso buddiannau rhanddeiliaid sy'n dymuno cael mynediad at wybodaeth reoleiddiol am ddarparwyr cofrestredig â'r beichiau gweinyddol a roddir ar ddarparwyr ac ar y Comisiwn wrth gadw'r wybodaeth yn y gofrestr yn gyfredol.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 14 wythnos ar y Rheoliadau cofrestru drafft a'r Rheoliadau dynodi drafft rhwng 31 Hydref 2023 a 5 Chwefror 2024.

5.2 Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol sydd â diddordeb mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol at yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd dwy sesiwn friffio i randdeiliaid ar-lein ym mis Tachwedd 2023 i gefnogi'r ymgynghoriad.

5.3 Prif amcan y sesiynau hyn oedd cynorthwyo rhanddeiliaid i ddeall diben yr ymgynghoriad a rhoi cyfle iddynt ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori ac ymateb i'r ymgynghoriad.

5.4 Gwahoddwyd ymatebwyr i adolygu'r ddogfen ymgynghori a'r wybodaeth ategol ar-lein ac ymateb i'r cwestiynau ymgynghori drwy e-bost, holiadur post neu ffurflen ar-lein. Derbyniwyd 21 o ymatebion.

5.5 Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn rhanddeiliaid ar y Rheoliadau cofrestru drafft drwy gyfres o gwestiynau. Nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys unrhyw gwestiynau penodol mewn perthynas â'r Rheoliadau dynodi, ac nid oedd unrhyw un o'r ymatebion a dderbyniwyd yn cyfeirio at y Rheoliadau hyn.

5.6 O ran y Rheoliadau cofrestru, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno â'r enwau a gynigiwyd ar gyfer y ddau gategori cofrestru, neu nid oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Felly, ni wnaed unrhyw newidiadau i deitlau'r categorïau cofrestru.

5.7 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod cynnwys y ddau amod cofrestru cychwynnol pellach arfaethedig yn angenrheidiol ac yn briodol. Yn ogystal, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r penderfyniad i gynnwys y tri amod cofrestru parhaus mandadol pellach arfaethedig.

5.8 Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn ar ba mor ddigonol yr oedd yr amodau cychwynnol pellach a'r amodau parhaus mandadol pellach. Cyflwynodd yr ymatebwyr awgrymiadau amrywiol ar gyfer amodau cofrestru pellach.

5.9 Fel y manylir yn y Memorandwm Esboniadol hwn, yr egwyddorion arweiniol, wrth nodi amodau cofrestru cychwynnol pellach ac amodau cofrestru parhaus mandadol i'w cynnwys yn y Rheoliadau, oedd sicrhau bod unrhyw ofynion statudol ychwanegol wedi'u cyfyngu i'r amodau hynny sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y drefn oruchwylio reoleiddiol yn

gweithredu fel y'i bwriadwyd, a bod buddiannau myfyrwyr yn cael eu gwarchod. Mae hefyd wedi bod yn fwriad polisi allweddol i roi disgresiwn i'r Comisiwn i gymhwyso amodau cofrestru parhaus pellach yn ôl yr hyn y mae'n ei ystyried yn briodol.

5.10 Ar ôl ystyried y meysydd a awgrymwyd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â'r egwyddorion arweiniol hyn, daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad nad oedd digon o sail i warantu cynnwys amodau cofrestru cychwynnol pellach neu amodau cofrestru parhaus mandadol yn y Rheoliadau, y tu hwnt i'r rhai a amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol hwn.

5.11 Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar ba mor ddigonol yw'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yng nghofnod darparwr yn y gofrestr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno ynghylch yr wybodaeth arfaethedig a strategaeth Llywodraeth Cymru i beidio â bod yn rhy rhagnodol, gan alluogi'r Comisiwn i bennu gofynion pellach a lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr.

5.12 Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cyfres o gwestiynau, gyda'r bwriad o helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r asesiad effaith rheoleiddiol, a oedd yn ceisio barn yr ymatebwyr ar unrhyw oblygiadau a ragwelir o ran adnoddau sy'n deillio o'r Rheoliadau neu'r system gofrestru; unrhyw dystiolaeth a fyddai'n helpu i asesu costau a manteision gweithredu'r system gofrestru; ac unrhyw randdeiliaid eraill sy'n debygol o wynebu costau sy'n codi o'r system gofrestru, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

5.13 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: Cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol: rheoliadau cychwynnol

Newid i'r Rheoliadau cofrestru yn dilyn yr ymgynghoriad

5.14 Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ystyriwyd bod un mater arall yn briodol i'w gynnwys yn y Rheoliadau cofrestru , sef y rheidrwydd i dynnu darparwr cofrestredig o gategori Craidd y gofrestr os nad yw'r statws elusennol yn cael ei fodloni mwyach.

5.15 Gan na chynhwyswyd y gofyniad ychwanegol hwn yn y broses ymgynghori, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru, a'r Comisiwn, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth hon a'r rheswm dros ei chynnwys.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Crynodeb

6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn nodi'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer sefydlu'r gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol fel sy'n ofynnol o dan Ran 2 o Ddeddf 2022, ac yn ystyried cwmpas, costau a manteision gwneud y rheoliadau angenrheidiol o dan Ddeddf 2022.

6.2 Mae angen cyfres o reoliadau i alluogi'r gofrestr i weithredu fel y bwriadwyd. Mae'r rhain yn angenrheidiol er mwyn i'r Comisiwn allu sefydlu a gweithredu'r gofrestr a chael y rhyddid gweithredol i ddatblygu ei ddisgwyliadau ei hun o ddarparwyr i fodloni gofynion rheoleiddio.

6.3 Y Rheoliadau cofrestru a'r Rheoliadau dynodi yw'r ddwy set gyntaf o'r rheoliadau hyn sydd i'w gwneud o dan Ddeddf 2022.

6.4 Wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, ystyriwyd tri opsiwn fel a ganlyn:

**Opsiwn 1:** Gwneud dim – nid yw Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau cofrestru, na'r Rheoliadau dynodi, ac nid yw'r Comisiwn yn sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol.

**Opsiwn 2:** mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau cofrestru, gan nodi categorïau cofrestru mewn perthynas ag addysg uwch, ynghyd â'r Rheoliadau dynodi, er mwyn galluogi'r Comisiwn i sefydlu'r gofrestr ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg uwch yn unig (yr opsiwn a ffefrir).

**Opsiwn 3:** mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau cofrestru, gan bennu categorïau cofrestru mewn perthynas ag addysg uwch ac addysg bellach, ynghyd â'r Rheoliadau dynodi, er mwyn galluogi'r Comisiwn i sefydlu'r gofrestr ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg uwch ac addysg bellach.

6.5 **Opsiwn 2** oedd y bwriad polisi datganedig pan basiwyd Deddf 2022 gan y Senedd ar 28 Mehefin 2022[3] ac fe'i cynhwyswyd yn y Datganiad o Fwriad Polisi[4] a oedd yn cyd-fynd â'r Ddeddf pan gafodd ei chyflwyno i'r Senedd.

6.6 Bydd **Opsiwn 2** yn caniatáu i'r gofrestr ffurfio porth rheoleiddio ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru (yn amodol ar Weinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau angenrheidiol o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 - gweler paragraffau 4.25 a 4.26 o'r Memorandwm Esboniadol). Yn ogystal, bydd opsiwn 2 yn galluogi'r Comisiwn i arfer yr ystod o swyddogaethau ymyrraeth reoleiddiol a swyddogaethau cyllido hefyd, y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2022 i gefnogi'r drefn reoleiddio.

6.7 Fel y manylwyd yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024 ar y cynigion polisi a'r Rheoliadau cofrestru a dynodi drafft. Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar **opsiwn 2** (gwneud rheoliadau i weithredu'r gofrestr ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg uwch yn unig). Dyma oedd y bwriad oherwydd dim ond darparwyr addysg uwch fydd yn gymwys i wneud cais i gael eu cofrestru â'r Comisiwn, ac felly hwn fydd yr unig grŵp o ddarparwyr a fydd yn ddarostyngedig i'r amodau cofrestru ar y cychwyn cyntaf.

6.8 Mae'r asesiad hwn yn cynnwys y costau a'r manteision ar gyfer **opsiwn 2** (gwneud rheoliadau i weithredu'r gofrestr ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg uwch yn unig yng Nghymru). Fodd bynnag, er y gellir nodi categorïau o gostau, noder mai prin yw'r costau manwl a phenodol ar hyn o bryd gan nad yw'r gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol wedi'i sefydlu eto ac nad yw disgwyliadau'r Comisiwn ynghylch bodloni'r amodau cofrestru wedi'u datblygu nac wedi bod yn destun ymgynghori eto.

6.9 Mae sefydlu'r gofrestr yn dibynnu ar wneud y Rheoliadau cofrestru, ynghyd ag is-ddeddfwriaeth bellach o dan Ddeddf 2022, a phenderfyniadau gan y Comisiwn.

6.10 Nid oedd darparwyr addysg uwch yn gallu darparu amcangyfrifon cost fel rhan o'u hymatebion i'r ymgynghoriad oherwydd yr ansicrwydd ynghylch yr union ofynion cofrestru. Felly, mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn yn gysylltiedig â'r gwaith sydd i'w wneud gan y Comisiwn i sefydlu'r gofrestr newydd a'r manteision a nodwyd.

6.11 Cafwyd yr wybodaeth hon i lywio'r gwaith o ddatblygu'r costau hyn drwy ystyried y rhwymedigaethau sy'n codi o dan Ddeddf 2022, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yr ymgysylltu cychwynnol â CCAUC a’r Comisiwn a llenyddiaeth ryngwladol y gellir ei throsglwyddo i gyd-destun Cymru (sydd wedi'u cynnwys drwyddi draw yn yr asesiad hwn).

6.12 Ystyriwyd cynnal ymchwil bellach ar gyfer yr asesiad hwn (a oedd yn cynnwys arolwg i ddarparwyr addysg uwch a chyfweliadau â sectorau a sefydliadau ymbarél); fodd bynnag, ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chan nad yw'r manylion gweithredol am y gofynion rheoleiddio y bydd angen i ddarparwyr addysg uwch eu bodloni wedi'u datblygu eto, barnwyd y byddai'n fwy gwerthfawr cynnal yr ymchwil unwaith y bydd y rheoliadau wedi'u gwneud a'r Comisiwn wedi datblygu'r disgwyliadau ar gyfer yr amodau cofrestru.

6.13 Nid yw'r Comisiwn wedi datblygu gwybodaeth eto ynghylch y gofynion o ran tystiolaeth ar gyfer bodloni'r amodau cofrestru cychwynnol a'r disgwyliadau ar gyfer cydymffurfio â'r amodau cofrestru parhaus. Fodd bynnag, ceir gofynion rheoleiddiol ar wyneb Deddf 2022 y bydd angen i'r Comisiwn eu hystyried, ac felly ystyrir y manteision sy'n deillio o'r gofynion hynny fel rhan o'r asesiad hwn. Y rhain yw:

- **Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr** (adran 129 o Ddeddf 2022) - Bwriad y Cod hwn yw sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli, ac y gall dysgwyr roi eu barn i ddarparwyr am ansawdd yr addysg y maent yn ei derbyn a chymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir gan y darparwyr hynny.

- **Y Cynllun Diogelu Dysgwyr** (adran 126 o Ddeddf 2022) - Nod hyn yw nodi sut y bydd darparwr yn diogelu buddiannau dysgwyr pe bai cwrs perthnasol (fel y'i diffinnir yn adran 126(10)) yn peidio â chael ei ddarparu, a sut y gallai darparwyr hwyluso trosglwyddo dysgwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau perthnasol sy'n dymuno trosglwyddo i gyrsiau neu ddarparwyr eraill.

- **Amodau cofrestru parhaus mewn perthynas â chyfle cyfartal** (adran 33 o Ddeddf 2022) - Mae hyn yn ymwneud â chyflwyno canlyniadau mesuradwy mewn perthynas â chyfle cyfartal er mwyn cynyddu cyfranogiad, cynyddu cyfraddau cadw, lleihau bylchau cyrhaeddiad a darparu cymorth mewn perthynas â dysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

- **Amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus mewn perthynas â lles myfyrwyr a staff** (adran 27(1)(d) a 31(1)(d) o Ddeddf 2022) - Mae hyn yn ymwneud ag effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr ar gyfer cefnogi a hyrwyddo lles ei fyfyrwyr a'i staff.

6.14 Bydd y fframwaith deddfwriaethol a ddarperir gan Ddeddf 2022, a'r is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf honno, yn rhoi'r rhyddid gweithredol angenrheidiol i'r Comisiwn, fel corff hyd braich, i ddatblygu ei ddisgwyliadau ei hun o ddarparwyr i fodloni'r gofynion rheoleiddio hynny, a datblygu ei ddull penodol ei hun o fonitro ac ymyrryd.

6.15 Mae'r adran isod yn nodi elfennau allweddol pob opsiwn ynghyd â dadansoddiad o'r manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â nhw.

## Opsiwn 1: Gwneud dim

6.16 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau, fel sy'n ofynnol o dan adran 25(2) o Ddeddf 2022, i ragnodi'r categorïau cofrestru, nac yn gwneud rheoliadau mewn perthynas â dynodi darparwyr yn sefydliad at ddiben gwneud cais i gofrestru. Byddai hyn yn ei dro yn golygu na allai'r Comisiwn sefydlu'r gofrestr.

6.17 Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn barhau i weithredu'r system goruchwylio rheoleiddio addysg uwch, fel y darparwyd ar ei chyfer gan Ddeddf 2015 ac a weithredwyd yn flaenorol gan CCAUC.

6.18 Yn y tymor byr, ac am gyfnod trosiannol, bydd y Comisiwn yn arfer nifer o swyddogaethau CCAUC o dan Ddeddf 2015 er mwyn sicrhau bod darparwyr addysg uwch yn parhau i gael eu goruchwylio'n rheoleiddiol ar ôl diddymu CCAUC. Darperir ar gyfer hyn yng Ngorchymyn Deddf Addysg

Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2024 ("pedwerydd Gorchymyn Deddf 2022"), a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar 17 Gorffennaf 2024, sy'n addasu darpariaethau perthnasol yn Neddf 2015 a thrwy hynny yn galluogi'r Comisiwn i arfer y swyddogaethau hyn.

6.19 Mae paragraff 31 o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 yn darparu ar gyfer diddymu Deddf 2015, ac o'r herwydd bydd y fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r system reoleiddio addysg uwch bresennol yn cael ei diddymu yn y pen draw (unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn o dan adran 148 o Ddeddf 2022 i ddarparu ar gyfer cychwyn paragraff 31 yn llawn).

6.20 Mae Rhan 3 o Ddeddf 2022 yn galluogi'r Comisiwn i gyllido addysg drydyddol, gan gynnwys addysg uwch (adran 88), ac ymchwil ac arloesi (adran 105). Caiff y Comisiwn ddarparu cyllid mewn perthynas ag addysg uwch yn unig (ac eithrio cyrsiau penodol fel y'u diffinnir yn y rheoliadau y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud o dan adran 89) neu mewn perthynas ag ymchwil i ddarparwyr cofrestredig sydd wedi'u cofrestru mewn categori a bennir mewn rheoliadau. Mae rheoliadau 6 a 7 o'r Rheoliadau cofrestru yn pennu'r categorïau perthnasol.

6.21 Yn y tymor byr, ac am gyfnod trosiannol, bydd y Comisiwn yn ymgymryd â'r hyn a arferai fod yn swyddogaethau CCAUC o dan adran 65 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("Deddf 1992"), er mwyn cyllido addysg uwch ac ymchwil. Fel yn achos Deddf 2015, darparwyd ar gyfer addasu Deddf 1992 ym mhedwerydd Gorchymyn Deddf 2022.

6.22 Mae paragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 yn darparu ar gyfer diddymu adran 65 (ynghyd â darpariaethau cysylltiedig eraill) o Ddeddf 1992, ac o'r herwydd bydd y fframwaith deddfwriaethol sy'n galluogi cyllido addysg uwch ac ymchwil ar hyn o bryd yn cael ei ddiddymu yn y pen draw (unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn o dan adran 148 o Ddeddf 2022 i ddarparu ar gyfer cychwyn paragraff 6 yn llawn).

6.23 Golygu hyn nad yw'r opsiwn 'gwneud dim' yn hyfyw fel ateb hirdymor. Byddai'n golygu bod y Comisiwn yn mabwysiadu'r trefniadau goruchwylio rheoleiddiol presennol ar gyfer darparwyr addysg uwch, nad ydynt yn cynnwys cofrestr o ddarparwyr.

<u>Prif fanteision opsiwn 1</u>

6.24 Ychydig iawn o waith datblygu a gweithredu fyddai'n cael ei wneud gan y Comisiwn.

6.25 Ni fyddai unrhyw feichiau rheoleiddio ychwanegol yn cael eu rhoi ar ddarparwyr addysg uwch gan amodau cofrestru.

6.26 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol o dan yr opsiwn hwn gan ei fod yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Prif anfanteision opsiwn 1

6.27 Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu dyletswydd statudol, fel sy'n ofynnol o dan adran 25(2) o Ddeddf 2022, i wneud rheoliadau i bennu un neu ragor o gategorïau cofrestru.

6.28 Ni allai'r Comisiwn gyflawni ei ddyletswydd statudol, fel y nodir yn adran 25(1) o Ddeddf 2022, i sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol.

6.29 Nid yw'n hyfyw yn y tymor hir oherwydd bod angen system newydd i gymryd lle'r system reoleiddio addysg uwch gyfredol gan fod y fframwaith deddfwriaethol sylfaenol, fel y darperir gan Ddeddf 2015, yn cael ei ddiddymu (unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn o dan adran 148 o Ddeddf 2022 i ddarparu ar gyfer cychwyn paragraff 31 o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 yn llawn).

6.30 Nid yw'r opsiwn hwn ychwaith yn hyfyw oherwydd bod angen disodli'r pwerau presennol i gyllido addysg uwch ac ymchwil gan fod y fframwaith deddfwriaethol sylfaenol, fel y darperir gan Ddeddf 1992, yn cael ei ddiddymu (unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn o dan adran 148 o Ddeddf 2022 i ddarparu ar gyfer cychwyn paragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 yn llawn).

6.31 Yn ogystal, pe na bai'r Rheoliadau dynodi yn cael eu gwneud, ni fyddai gweithdrefn benodedig i ddarparwyr wneud cais am ddynodiad yn sefydliad, ac i'r dynodiad hwnnw gael ei dynnu'n ôl.

6.32 Ni fyddai'n mynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch cyfyngiadau Deddf 2015[5], nac yn darparu un system goruchwylio rheoleiddiol sy'n berthnasol i bob darparwr addysg uwch yng Nghymru.

**Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau cofrestru a'r Rheoliadau dynodi a sefydlu'r gofrestr addysg drydyddol ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg uwch yn unig (yr opsiwn a ffefrir)**

6.33 Yr opsiwn hwn yw'r bwriad polisi datganedig ers i Ddeddf 2022 gael ei chyflwyno i'r Senedd (fel y nodir yn y Datganiad o Fwriad Polisi a oedd yn cyd-fynd â'r Bil ar y pryd), a dyma oedd y bwriad polisi datganedig o hyd pan basiwyd Deddf 2022 gan y Senedd ar 28 Mehefin 2022.

6.34 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i bennu'r categorïau cofrestru sy'n berthnasol i ddarparwyr addysg uwch, ynghyd â'r holl faterion perthnasol eraill a fyddai'n gofyn am ddarpariaeth mewn rheoliadau. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cynnwys gwneud rheoliadau mewn perthynas â dynodi darparwyr yn sefydliad at ddiben gwneud cais i gofrestru.

[5] Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (senedd.cymru)

6.35 Byddai'n ofynnol i'r Comisiwn yn ei dro sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg uwch yn unig.

6.36 Byddai darparwyr addysg bellach yn parhau i gael eu rheoleiddio'n bennaf trwy delerau ac amodau'r Comisiwn ar ei gyllid.

6.37 Mae adran 108 o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn, wrth benderfynu ar y telerau a'r amodau sydd i'w gosod ar ei gyllid i ddarparwr anghofrestredig o dan adrannau 89(3), 97(1)(a) neu (b) neu 104(1)(a) o'r Ddeddf honno, ystyried gosod gofynion yn ymwneud â llawer o'r amodau cofrestru parhaus mandadol, fel y nodir ar wyneb Deddf 2022, sy'n berthnasol i bob darparwr cofrestredig.

<u>Prif fanteision opsiwn 2</u>

6.38 Byddai Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'u dyletswydd, fel y darperir ar ei chyfer yn adran 25(2) o Ddeddf 2022, i wneud rheoliadau i bennu un neu ragor o gategorïau cofrestru.

6.39 Byddai'r Comisiwn yn gallu cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol, fel y nodir yn adran 25(1) o Ddeddf 2022, i sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol.

6.40 Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio adnoddau lle mae angen polisi clir gan y bydd yn darparu trosolwg rheoleiddiol cyson o ddarparwyr y mae eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Y rheswm am hyn yw na ellir goruchwylio'n rheoleiddiol darparwyr o'r fath drwy delerau ac amodau cyllid yn unig, gan fod taliadau ffioedd dysgu yn ymrwymiad cytundebol rhwng darparwyr a'u myfyrwyr.

6.41 Bydd y dull hwn hefyd yn caniatáu goruchwyliaeth reoleiddiol gyfartal a chydlynol mewn perthynas â'r gwahanol fathau o ddarparwyr addysg drydyddol lle gall telerau ac amodau cyllido sicrhau'r oruchwyliaeth reoleiddiol angenrheidiol.

6.42 Mae'r opsiwn hwn yn cyflwyno llai o faterion adnoddau a chapasiti i'r Comisiwn nag opsiwn 3 ac yn gosod llai o faich gweinyddol ar ddarparwyr addysg bellach gan y byddent yn parhau i gael eu rheoleiddio mewn ffordd sy'n gyfarwydd iddynt.

6.43 Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno system newydd yn lle'r system reoleiddio addysg uwch gyfredol, fel y darperir ar ei chyfer gan Ddeddf 2015. Mae hyn yn flaenoriaeth gan fod paragraff 31 o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 yn darparu ar gyfer diddymu Deddf 2015 (unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn o dan adran 148 o Ddeddf 2022 i ddod â pharagraff 31 i rym yn llawn).

6.44 Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cyflwyno pwerau newydd yn lle'r pwerau presennol i gyllido addysg uwch ac ymchwil, fel y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf 1992. Mae hyn eto yn flaenoriaeth gan fod paragraff 6(3)(c) o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 yn darparu ar gyfer diddymu adran 65 o Ddeddf 1992 (unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn o dan adran 148 o Ddeddf 2022 i ddarparu ar gyfer cychwyn paragraff 6(3)(c) o Atodlen 4 i Ddeddf 2022).

6.45 Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn darparu ar gyfer gweithdrefn benodedig i ddarparwyr wneud cais am ddynodiad yn sefydliad, ac i'r dynodiad hwnnw gael ei dynnu'n ôl.

<u>Prif anfanteision opsiwn 2</u>

6.46 Ni fyddai un mecanwaith goruchwylio rheoleiddiol ar gyfer y sector ôl-16 cyfan.

6.47 Er bod Deddf 2022 yn gallu addasu i anghenion y dyfodol er mwyn caniatáu i'r gofrestr gwmpasu mathau eraill o addysg drydyddol os bydd angen polisi yn codi, byddai angen rheoliadau pellach i weithredu newid o'r fath.

**Opsiwn 3: Gwneud y Rheoliadau cofrestru a'r Rheoliadau dynodi a sefydlu'r gofrestr addysg drydyddol ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg uwch ac addysg bellach.**

6.48 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gwneud y rheoliadau angenrheidiol i ragnodi categorïau cofrestru ar gyfer addysg uwch a hefyd addysg bellach a hyfforddiant, ynghyd â'r holl faterion perthnasol eraill a fyddai'n gofyn am ddarpariaeth mewn rheoliadau.

6.49 Mae'r opsiwn hwn yn golygu y byddai'r Comisiwn yn sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol ac yn galluogi darparwyr addysg bellach a hyfforddiant, ac addysg uwch i gofrestru.

6.50 Dyma fyddai'r prif fecanwaith a ddefnyddir gan y Comisiwn ar gyfer goruchwylio'n rheoleiddiol pob darparwr sy'n derbyn arian cyhoeddus, gan gynnwys cyllid gan y Comisiwn a chymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru.

6.51 Mae'n bosibl, o dan Ddeddf 2022, darparu ar gyfer cofrestr o ddarparwyr addysg uwch a darparwyr addysg bellach a hyfforddiant. Fodd bynnag, mae cyflwyno system newydd yn lle'r system reoleiddio addysg uwch gyfredol yn flaenoriaeth, gan fod Deddf 2022 yn darparu ar gyfer diddymu Deddf 2015 (unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn o dan adran 148 o Ddeddf 2022 i ddod â pharagraff 31 o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 i rym yn llawn).

6.52 Ar hyn o bryd, nid oes angen i ddarparwyr addysg bellach a hyfforddiant gofrestru gan fod modd eu rheoleiddio drwy delerau ac amodau cyllido.

Prif fanteision opsiwn 3:

6.53 Byddai Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'u dyletswydd, fel y nodir yn adran 25(2) o Ddeddf 2022, i wneud rheoliadau i bennu un neu ragor o gategorïau cofrestru.

6.54 Byddai'r Comisiwn yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol, fel y nodir yn adran 25(1) o Ddeddf 2022, i sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol.

6.55 Byddai'r holl ddarparwyr ôl-16 yn cael eu rheoleiddio gyda'r un mecanwaith goruchwylio gan gynnig mwy o gysondeb a chydlyniant ar draws y sector.

6.56 Fel gydag opsiwn 2,byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno system newydd yn lle'r system reoleiddio addysg uwch gyfredol, sy'n flaenoriaeth gan y bydd Deddf 2015 yn cael ei diddymu (unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn o dan adran 148 o Ddeddf 2022 i ddod â pharagraff 31 o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 i rym yn llawn).

6.57 Unwaith eto, fel gydag opsiwn 2, byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno pwerau newydd yn lle'r pwerau presennol i gyllido addysg uwch ac ymchwil, fel y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf 1992. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn darparu ar gyfer gweithdrefn benodedig i ddarparwyr wneud cais am ddynodiad yn sefydliad, ac i'r dynodiad hwnnw gael ei dynnu'n ôl.

Prif anfanteision opsiwn 3:

6.58 Bydd datblygu a sefydlu'r gofrestr yn dasg llawer mwy i'r Comisiwn pe bai'n cwmpasu pob math o ddarparwyr ôl-16, yn enwedig mor gynnar ar ôl ei sefydlu. Mae nifer y ceisiadau y byddai angen eu hasesu a'u cymeradwyo yn debygol o fod â goblygiadau i'r Comisiwn o ran capasiti ac adnoddau.

6.59 Gall darparwyr addysg bellach barhau i gael eu rheoleiddio'n bennaf trwy gyllid grant y Comisiwn, a'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cyllid hwnnw.

6.60 Mae adran 108 o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn, wrth benderfynu ar y telerau a'r amodau sydd i'w gosod ar ei gyllid i ddarparwr anghofrestredig o dan adrannau 89(3), 97(1)(a) neu (b) neu 104(1)(a) o'r Ddeddf honno, ystyried gosod gofynion yn ymwneud â nifer o'r amodau cofrestru parhaus mandadol, fel y nodir ar wyneb Deddf 2022, sy'n berthnasol i bob darparwr cofrestredig.

6.61 Bwriedir i'r dull hwn sicrhau goruchwyliaeth reoleiddiol gyfartal mewn perthynas â gwahanol fathau o addysg drydyddol, ac felly nid oes angen polisi clir ar hyn o bryd i reoleiddio pob math o ddarparwr trwy gofrestr gan fod Deddf 2022 eisoes yn darparu ar gyfer dull amgen sydd yr un mor gadarn.

6.62 Mae angen blaenoriaethu'r gwaith. Mae potensial y gallai'r math hwn o oruchwyliaeth achosi baich diangen ar y darparwyr addysg bellach hynny nad ydynt yn gyfarwydd â rheoleiddio o'r fath, gan arwain at risg o ansefydlogrwydd ariannol os na chaiff cofrestriad ei gymeradwyo gan y Comisiwn.

Casgliad

6.63 Nid yw **Opsiwn 1** yn hyfyw fel ateb hirdymor; ni fyddai Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu dyletswydd i wneud rheoliadau i bennu un o ragor o gategorïau cofrestru ac ni fyddai'r Comisiwn yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol i sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol.

6.64 **Opsiwn 2** yw'r opsiwn a ffefrir oherwydd mae angen system newydd yn lle'r system reoleiddio addysg uwch gyfredol gan fod disgwyl i'r fframwaith deddfwriaethol sylfaenol, fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf 2015, gael ei ddiddymu (unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn o dan adran 148 o Ddeddf 2022 i ddod â pharagraff 31 o Atodlen 4 i Ddeddf 2022 i rym yn llawn).

6.65 Opsiwn 2 oedd y bwriad polisi datganedig ers i Ddeddf 2022 gael ei chyflwyno i'r Senedd (fel y nodir yn y Datganiad o Fwriad Polisi a oedd yn cyd-fynd â'r Bil ar y pryd), a dyma oedd y bwriad polisi datganedig o hyd pan basiwyd Deddf 2022 gan y Senedd ar 28 Mehefin 2022.

6.66 **Opsiwn 2,** yn hytrach nag **opsiwn 3**, yw'r dull a ffefrir gan fod angen blaenoriaethu'r oruchwyliaeth reoleiddiol ar gyfer addysg uwch ar hyn o bryd oherwydd bod modd i ddarparwyr addysg bellach a hyfforddiant barhau i gael eu rheoleiddio'n bennaf trwy gyllid y Comisiwn, a'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cyllid hwnnw, ond nid yw hyn yn bosibl i ddarparwyr addysg uwch. Bydd Opsiwn 2 yn caniatáu goruchwyliaeth reoleiddiol gyfartal i ddarparwyr addysg bellach trwy delerau ac amodau.

6.67 Roedd yr ymgynghoriad, fel y manylir yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, yn mynd i'r afael ag opsiwn 2 (gwneud rheoliadau i alluogi gweithredu'r gofrestr ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg uwch yn unig).

6.68 Nid yw'r gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol wedi'i gweithredu eto. Bydd hyn yn dibynnu ar wneud yr is-ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y Rheoliadau cofrestru a'r Rheoliadau dynodi, a phenderfyniadau gan y Comisiwn. Caiff ei adolygu unwaith y bydd y system gofrestru wedi'i gweithredu gan y Comisiwn.

6.69 I gofrestru, bydd angen i ddarparwyr fodloni gofynion adran 25(4) o Ddeddf 2022 sy'n cynnwys disgwyliadau'r Comisiwn ynghylch yr amodau cofrestru cychwynnol. Ni fydd y disgwyliadau hynny a manylion yr amodau cofrestru yn hysbys hyd nes bod y Comisiwn wedi cael cyfle i ymgynghori ar ei gynigion.

## 7. Costau a manteision yr opsiwn a ffefrir (opsiwn 2)

7.1 Mae'r diwygiadau arfaethedig yn ymwneud â chofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg uwch o dan Ddeddf 2022, yn ogystal ag is-ddeddfwriaeth berthnasol a wneir o dan y Ddeddf honno. Bydd y gofrestr y darperir ar ei chyfer gan Ddeddf 2022 yn cymryd lle'r system reoleiddio addysg uwch gyfredol o dan Ddeddf 2015.

7.2 Archwilir costau a manteision **opsiwn 2**, a'r Rheoliadau cofrestru fel rhan o'r asesiad hwn. Gellir nodi mathau o gostau ond mae costau mesuradwy yn gyfyngedig ar hyn o bryd gan nad yw'r gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol wedi'i gweithredu eto.

7.3 Er bod opsiwn 2 yn cynnwys gwneud y Rheoliadau dynodi, nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn yn yr asesiad hwn. Mae hyn ar y sail y bydd costau gweinyddol cyfyngedig i ddarparwyr ansefydliadol ar gyfer gwneud cais am ddynodiad yn sefydliad.

7.4 Disgwylir i'r costau hynny fod yn fach iawn gan mai dim ond gwybodaeth am ei drefniadau llywodraethu a'i ddarpariaeth addysg drydyddol yng Nghymru y bydd angen i ymgeisydd ei darparu er mwyn gwneud cais i Weinidogion Cymru i'w ddynodi'n sefydliad. Nid oes unrhyw gostau cyfredol eraill yn gysylltiedig â'r Rheoliadau dynodi. Ni ystyrir bod darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i wneud cais am ddynodiad yn feichus i ddarparwyr. Mae'r wybodaeth yn angenrheidiol er mwyn adnabod y darparwr sy'n ymgeisio ac i sicrhau ei fod yn darparu addysg drydyddol sy'n berthnasol i'r categori y mae'n dymuno cofrestru ynddo.

7.5 Fel y nodwyd yn gynharach yn yr asesiad hwn, bydd sefydlu'r gofrestr yn dibynnu ar wneud y Rheoliadau cofrestru, ynghyd ag is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud yn y dyfodol o dan Ddeddf 2022, a phenderfyniadau gan y Comisiwn.

7.6 Mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn yn gysylltiedig â sefydlu'r gofrestr newydd a'r manteision a nodwyd wrth ddatblygu Deddf 2022, yr ymgynghoriad ac ymgysylltu pellach ar eglurhad gan CCAUC; ac adolygiad o lenyddiaeth ryngwladol y gellir ei throsglwyddo i gyd-destun Cymru.

7.7 Yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r ymgysylltu â rhanddeiliaid ar yr ymatebion, cafwyd consensws ei bod yn anodd gwybod faint o oblygiadau fydd o ran adnoddau hyd nes bod y manylion ynghylch y gofynion yn cael eu datblygu. Felly, penderfynwyd gohirio'r ymchwil ychwanegol a gynlluniwyd gyda rhanddeiliaid allweddol am y tro. Rhagwelwyd y byddai'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn fwy gwerthfawr ac amserol unwaith y bydd y manylion ynghylch y gofynion wedi'u datblygu a'u deall.

7.8 Rhagwelwyd y byddai llinell sylfaen yn cael ei phennu o'r costau amcangyfrifedig cyfredol a ysgwyddir gan Brifysgolion Cymru (sy'n cynrychioli buddiannau prifysgolion yng Nghymru ac sy'n Gyngor Cenedlaethol Prifysgolion), y prifysgolion ar eu rhan, a CCAUC mewn perthynas â chyflawni'r system reoleiddio a ddarparwyd o dan Ddeddf 2015. Roedd hyn er mwyn gwneud cymhariaeth â Deddf 2022.

7.9 O'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid ynghylch yr ymatebion, gwelwyd nad oedd unrhyw gostau cyfredol ar gael i bennu llinell sylfaen ac nad yw'r gofynion o dan Ddeddf 2022 yn uniongyrchol gymaradwy â'r gweithgareddau a'r costau sy'n deillio o Ddeddf 2015.

7.10 Hynny oherwydd bod y gofynion a'r gweithgareddau newydd a ddisgwylir gan ddarparwyr addysg uwch cofrestredig yn dal i gael eu datblygu gan y Comisiwn. Mae'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr adran ar gostau'n cynnwys y costau staffio sy'n gysylltiedig â CCAUC fel y corff rheoleiddio blaenorol, y costau staff ychwanegol a ragwelir ar gyfer y Comisiwn ynghyd ag amcangyfrif o gostau cyflawni cyfalaf ar gyfer y gofrestr.

7.11 Datblygwyd arolwg ar gyfer darparwyr addysg uwch a reoleiddir gan CCAUC (sefydliadau rheoleiddiedig o dan Ddeddf 2015). Prif bwrpas yr arolwg oedd deall y costau a ysgwyddir gan sefydliadau rheoleiddiedig ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau rheoleiddio CCAUC. Ei nod hefyd oedd nodi manteision ac anfanteision canfyddedig y system gofrestru newydd o safbwynt y darparwyr hyn.

7.12 Fodd bynnag, fe wnaeth ymgysylltu cychwynnol ac ymchwilio pellach i'r gofynion presennol ar sefydliadau rheoleiddiedig sy'n canolbwyntio ar weithgareddau yn ymwneud â chynlluniau ffioedd a mynediad, ddangos y byddai'n anodd i'r darparwyr hyn bennu costau mewn ffordd a fyddai'n debyg ymhlith yr holl sefydliadau rheoleiddiedig yng Nghymru. Daeth i'r amlwg hefyd, er bod gweithgareddau'n ymwneud â chynlluniau ffioedd a mynediad yn rhan o'r gofynion cydymffurfio sy'n gysylltiedig â Deddf 2015, ni fydd angen cynlluniau ffioedd a mynediad o dan Ddeddf 2022. Yn lle hynny bydd angen i ddarparwyr cofrestredig gydymffurfio ag ystod o amodau cofrestru parhaus.

7.13 Rhagwelwyd hefyd y byddai'r arolwg yn nodi manteision ac anfanteision canfyddedig y system gofrestru newydd o safbwynt darparwyr addysg uwch rheoleiddiedig. Cynigiwyd hyn er mwyn sicrhau bod sefydliadau rheoleiddiedig, y mae disgwyl i'r mwyafrif ohonynt wneud cais i gofrestru â'r Comisiwn, yn gallu darparu eu canfyddiadau o fanteision ac anfanteision y gweithgareddau newydd sy'n gysylltiedig â chofrestru e.e. o'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ar gyfer y darparwyr a'r dysgwyr hefyd.

7.14 Fodd bynnag, gan nad yw'r manylion gweithredol sy'n ymwneud â'r gofynion cofrestru wedi'u datblygu eto; barnwyd y byddai'n fwy gwerthfawr gwneud ymchwil pellach unwaith y bydd mwy o wybodaeth ar gael gan y

Comisiwn. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu fel rhan o'r gwerthusiad ehangach o Deddf 2022.

7.15 O gymharu â'r system reoleiddio o dan Ddeddf 2015, mae gofynion newydd wedi'u nodi ar wyneb Deddf 2022 y bydd angen i'r Comisiwn fynd i'r afael â hwy wrth sefydlu'r gofrestr; felly, ystyrir y manteision cychwynnol yn yr asesiad hwn:

- Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr
- Cynlluniau Diogelu Dysgwyr
- Yr amod cofrestru parhaus mewn perthynas â chyfle cyfartal
- Yr amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus mewn perthynas â lles myfyrwyr a staff

Costau

7.16 Nid yw'r Comisiwn eto wedi sefydlu'r gofrestr, nac wedi diffinio ei ddisgwyliadau rheoleiddiol ar gyfer darparwyr ar gyfer yr amodau cofrestru a amlinellir yn Neddf 2022 ac yn y Rheoliadau cofrestru; felly, nid yw'r costau amcangyfrifedig ar gyfer darparwyr cofrestredig wedi'u pennu eto.

7.17 Ar hyn o bryd mae sefydliadau yng Nghymru, sy'n dymuno i'w cyrsiau addysg uwch llawnamser perthnasol gael eu dynodi'n awtomatig at ddiben cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru, yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth reoleiddiol o dan Ddeddf 2015. Bydd y system gofrestru y darperir ar ei chyfer gan Ddeddf 2022 yn disodli'r system reoleiddio addysg uwch gyfredol.

*Costau staff*

7.18 Mae cymharu costau staff wedi bod yn seiliedig ar y rolau rheoleiddio parhaol a gafodd eu cynnwys yn strwythur CCAUC, i gyflawni'r gofynion o dan Ddeddf 2015, a strwythur staffio cychwynnol y Comisiwn. Nid yw staff Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn y costau hyn.

7.19 Bydd angen cynyddu nifer y swyddi ar gyfer y Comisiwn gan y bydd ei rôl reoleiddiol yn ehangach na rôl CCAUC. Fodd bynnag, rhagwelir na fydd llawer o'r gwaith rheoleiddio presennol nad yw'n ymwneud ag addysg uwch a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yn trosglwyddo i'r Comisiwn.

7.20 Amcangyfrifwyd bod angen o leiaf saith swydd barhaol ychwanegol ar gyfer strwythur y Comisiwn o gymharu â strwythur blaenorol CCAUC, sy'n gynnydd yn y costau staff o'r £646,000 ar gyfer CCAUC i £954,000 i'r Comisiwn. Mae'r ffigurau yn gost fesul blwyddyn yn seiliedig ar raddfeydd cyflog 23/24 ac nid ydynt yn cynnwys argostau.

7.21 Os ychwanegir amcangyfrif o 40% i'r ffigurau hyn ar gyfer argostau, y ffigurau ar gyfer y system a weithredwyd gan CCAUC a'r system newydd a weithredir gan y Comisiwn fyddai **£904,000** a **£1,335,000** yn y drefn

honno. Mae hyn yn cyfateb i gost ychwanegol flynyddol o oddeutu **£431,000**.

7.22 Fodd bynnag, mae hefyd dwy swydd dros dro ychwanegol a ystyriwyd yn angenrheidiol i helpu gyda'r gwaith o sefydlu'r gofrestr (sydd heb eu cynnwys yn y saith a nodir uchod). Mae hyn yn gost staff ychwanegol o tua **£95,000**, ac eithrio argostau, yn seiliedig ar strwythur staffio cychwynnol y Comisiwn. Os ychwanegir oddeutu 40% ar gyfer argostau, byddai'r ffigwr hwn yn **£133,000**.

*Costau cyfreithiol*

7.23 Mae'n debygol y bydd costau'n cael eu hysgwyddo ar gyfer cyngor cyfreithiol mewn perthynas â datblygu'r gofrestr a'r drefn reoleiddio. Roedd y costau cyfreithiol ar gyfer CCAUC a oedd yn gysylltiedig â gweithredu Deddf 2015 yn **£60,000** o leiaf. Disgwylir y bydd y costau ar gyfer cyngor cyfreithiol sy'n ymwneud â gweithredu'r system reoleiddio newydd yn fwy na'r lefel hon, o ystyried ehangder y darpariaethau a gwmpesir gan Ddeddf 2022 a chwyddiant cyflog yn y cyfamser. Bydd modd darparu amcangyfrif mwy realistig o gostau cyfreithiol unwaith y bydd y Comisiwn wedi ystyried gweithrediad y system gofrestru.

*Costau cyflawni'r gofrestr*

7.24 Mae'r Comisiwn wedi amcangyfrif bod y costau cyflawni cyfalaf ar gyfer y gofrestr yn oddeutu £700,000 dros ddwy flynedd. Mae'r amcangyfrif hwn wedi'i seilio ar y costau cyflenwi cyfalaf a ysgwyddwyd ar gyfer y systemau Adnoddau Dynol a Chyllid; fodd bynnag, gan nad yw cwmpas swyddogaethol y system gofrestru wedi'i bennu eto, amcangyfrif gorau yw'r costau hyn.

7.25 Bydd y costau ar gyfer datblygu'r system TG ar gyfer y gofrestr yn gyllideb refeniw ar wahân i dalu costau TG parhaus pellach sy'n cynnwys contractau cynnal a chadw / cymorth, archwiliadau diogelwch, trwyddedu, costau cwmwl, offer newydd (gliniaduron, ffonau symudol etc); nid yw'r rhain wedi'u pennu eto.

| | **2024-25 (£)** | **2025-26 (£)** | **2026-27 (£)** | **2027-28 (£)** | **2028-29 (£)** |
|---|---|---|---|---|---|
| TG (cyfalaf) | 350,000 | 350,000 | | | |
| Staff dros dro | 133,000 | 133,000 | | | |
| Staff parhaol | 431,000 | 431,000 | 431,000 | 431,000 | 431,000 |
| **Cyfanswm** | **914,000** | **914,000** | **431,000** | **431,000** | **431,000** |

Manteision

*Mecanwaith cyfreithiol ar gyfer goruchwyliaeth reoleiddiol darparwyr addysg uwch*

7.26 Un o amcanion polisi cychwynnol Llywodraeth Cymru[6] ar gyfer gweithredu Deddf 2022 yw sefydlu **sail ddeddfwriaethol effeithiol, gadarn a chynaliadwy ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol**. Ni all darparwyr y mae eu darpariaeth addysg uwch yn cael eu cyllido gan ffioedd dysgu yn bennaf gael eu rheoleiddio trwy delerau ac amodau'r Comisiwn yn unig gan fod taliadau ffioedd dysgu yn ymrwymiad cytundebol rhwng darparwyr a'u myfyrwyr. Felly, blaenoriaeth gynnar i'r Comisiwn fydd datblygu system goruchwylio rheoleiddiol ar gyfer y darparwyr hyn.

7.27 O dan Ddeddf 2022, rhaid i'r Comisiwn sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol. Bydd y gofrestr yn creu un porth clir i'r sector addysg uwch rheoleiddiedig yng Nghymru. Mae adran 25(2) o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu un neu ragor o gategorïau cofrestru y mae'n rhaid i'r Comisiwn wneud darpariaeth ar eu cyfer yn y gofrestr.

7.28 Fel y manylir yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Rheoliadau cofrestru yn darparu ar gyfer dau gategori cofrestru, y mae'r ddau ohonynt yn ymwneud â darparwyr addysg uwch. Bydd pob darparwr addysg uwch (diffinnir 'addysg uwch' yn adran 144(1) o Ddeddf 2022), y mae ei weithgareddau'n cael eu cynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ac sy'n dymuno elwa ar ddynodi eu cyrsiau addysg uwch perthnasol yn awtomatig at ddibenion cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru, yn gallu gwneud cais i gofrestru gyda'r Comisiwn (yn amodol ar fodloni'r amodau gofynnol fel y nodir yn adran 25(4) o Ddeddf 2022).

7.29 Dylai creu un porth rheoleiddio helpu i **symleiddio'r** dull o ddynodi cyrsiau addysg uwch a chaniatáu i'r ystod lawn o ddarparwyr addysg uwch ddod o dan oruchwyliaeth reoleiddiol y Comisiwn.

7.30 Mae Deddf 2022 hefyd yn galluogi **goruchwylio'n rheoleiddiol darparwyr nad ydynt wedi cofrestru** sy'n dibynnu ar gyllid gan y Comisiwn i ddarparu eu darpariaeth addysg drydyddol, trwy delerau ac amodau cyllido. Bydd darparwyr addysg bellach neu hyfforddiant yn cael eu rheoleiddio drwy'r mecanwaith hwn i ddechrau. Fodd bynnag, bydd angen i ddarparwyr addysg bellach sy'n dymuno i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gofrestru gyda'r Comisiwn.

7.31 Bwriad cyffredinol polisi'r gofrestr yw **galluogi rheoleiddio priodol a chymesur ar gyfer darparwyr addysg uwch sy'n derbyn arian cyhoeddus**, gan gynnwys cyllid grant gan y Comisiwn a chymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.  Bydd y system gofrestru'n creu cysylltiad clir rhwng y manteision sy'n deillio o gael mynediad at y cyllid hwn a'r angen i

[6] Rheoleiddio darparwyr addysg uwch yng Nghymru [HTML] | LLYW.CYMRU

**sicrhau bod darparwyr addysg drydyddol yn atebol i’r cyhoedd ac yn gallu cyfrannu at flaenoriaethau strategol y Comisiwn**.

*Cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol: ymgynghoriad ar y rheoliadau cychwynnol*

7.32 Fel y manylwyd yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, roedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau cofrestru yn cynnwys cyfres o gwestiynau yn gofyn barn rhanddeiliaid ar ystod o faterion i gefnogi datblygiad yr asesiad hwn.

7.33 O ran y goblygiadau disgwyliedig ar gyfer adnoddau i ddarparwyr addysg uwch sy'n deillio o sefydlu'r gofrestr; y consensws yn seiliedig ar ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft (fel y manylir yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol), yw ei bod yn **anodd gwybod maint y goblygiadau ar hyn o bryd.** Mae'n debygol y bydd newid sylweddol yn ychwanegu baich o ran adnoddau ar ddarparwyr; ond roedd rhai ymatebwyr yn rhagweld y **bydd sefydliadau rheoleiddiedig yn ysgwyddo ychydig iawn o gost** a biwrocratiaeth wrth gofrestru gyda'r Comisiwn.

7.34 At hynny, nodwyd y gallai gofynion adrodd ychwanegol arwain at gynnydd mewn costau eisoes oherwydd **staff** dros dro ac **uwchraddio systemau rheoli data**, yn enwedig i sefydliadau llai. Mae'r prosesau presennol wedi'u datblygu'n dda, yn cael eu deall ac yn llai o faich dros amser; fodd bynnag, **mae newid yn debygol o ychwanegu at y baich o ran adnoddau.**

7.35 Pan ofynnwyd am dystiolaeth i helpu i asesu costau a manteision gweithredu'r gofrestr, adroddwyd yn gyffredinol bod y sefyllfa'n **rhy amwys** ar hyn o bryd ac nad yw'n bosibl darparu tystiolaeth heb **wybodaeth weithredol ychwanegol**. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chasglu mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol.

7.36 Pan ofynnwyd a oes rhanddeiliaid eraill sy'n debygol o wynebu costau o ganlyniad i sefydlu'r gofrestr, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, adroddwyd eto nad yw'n **glir ar hyn o bryd** nes bod manylion y system gofrestru'n hysbys. Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai fod costau ar gyfer **partneriaid cyflawni addysg uwch, trwy gynnal cylch adolygu ansawdd.**

7.37 Bydd disgwyl i'r Comisiwn gynnal ei ymgynghoriad a'i asesiadau effaith ei hun fel rhan o'r broses ddatblygu.

Tystiolaeth ryngwladol sy'n berthnasol i reoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yng Nghymru

*Asiantaeth Ansawdd a Safonau Addysg Drydyddol Awstralia (TEQSA)*

7.38 Sefydlodd Deddf Ansawdd a Safonau Addysg Drydyddol 2011[7] (Deddf TEQSA) yr Asiantaeth Ansawdd a Safonau Addysg Drydyddol (TEQSA) yn 2011 i ddarparu rheoleiddio a sicrwydd ansawdd cenedlaethol ar gyfer addysg uwch yn Awstralia. Y nod oedd sefydlu system reoleiddio genedlaethol i sicrhau ansawdd yr holl ddarparwyr addysg uwch.

7.39 Cyhoeddwyd adolygiad o effaith Deddf TEQSA ar y sector addysg uwch ym mis Mawrth 2017[8]. Mae canfyddiadau'r adolygiad yn seiliedig ar y profiadau a'r manteision canfyddedig i ddarparwyr sy'n gweithredu cyn ac ar ôl sefydlu TEQSA. Mae'r Adolygiad hefyd yn tynnu ar ganfyddiadau arolwg sector gyfan o ddarparwyr a gynhaliwyd ar gyfer Fframwaith Perfformiad Rheoleiddiwr TEQSA[9] (mae'n ofynnol i reoleiddwyr sy'n gweinyddu, yn monitro neu'n gorfodi rheoleiddio weithredu'r Fframwaith).

7.40 Adroddodd yr adolygiad o'r Ddeddf TEQSA fod darparwyr a oedd â phrofiad blaenorol o fwy nag un rheoleiddiwr wedi nodi **gostyngiad yn y baich cydymffurfiaeth** wrth symud i un rheoleiddiwr cenedlaethol a **symleiddiodd y prosesau cofrestru ac achredu.**

7.41 Ystyriodd yr adolygiad hefyd sut mae Deddf TEQSA wedi effeithio ar ansawdd y darparwyr presennol. Adroddwyd bod y Safonau Trothwy[10] (sy'n un o'r prif agweddau ar ddull rheoleiddio TEQSA) yn creu manteision trwy ddarparu lefel o arweiniad ar **arferion gorau** ac felly gwelwyd bod gan Awstralia **lefel gyson o ansawdd mewn perthynas â** darparu addysg uwch.

7.42 At hynny, awgrymwyd bod Deddf TEQSA wedi **gwella'r canfyddiadau rhyngwladol o ansawdd addysg uwch yn Awstralia** gan roi **hyder i fyfyrwyr rhyngwladol ynghylch ansawdd darparwyr addysg uwch Awstralia**. Er yn ddangosydd bras yn unig, mae nifer y myfyrwyr rhyngwladol wedi cynnydd ers cychwyn Deddf TEQSA ddechrau, a gallai hyn fod wedi dellio'n rhannol o'r canfyddiad hwn o ansawdd.

*Y Swyddfa Myfyrwyr ar gyfer prifysgolion yn Lloegr 2023*

7.43 Roedd baich rheoleiddio yn bwnc allweddol a drafodwyd yn ymchwiliad Pwyllgor Diwydiant a Rheoleiddwyr Tŷ'r Arglwyddi i waith y Swyddfa Myfyrwyr yn 2023[11]. Cydnabu'r Swyddfa Myfyrwyr bryderon y sector am

---

[7] Cofrestr Ffederal o Ddeddfwriaeth - Deddf Asiantaeth Ansawdd a Safonau Addysg Drydyddol 2011
[8] Adolygiad o effaith Deddf TEQSA - Adroddiad Terfynol - Adran Addysg, Llywodraeth Awstralia
[9] Fframwaith Perfformiad Rheoleiddiwr TEQSA 2015-16
[10] Cofrestr Ffederal o Ddeddfwriaeth - Fframwaith Safonau Addysg Uwch (Safonau Trothwy) 2021
[11] committees.parliament.uk/publications/42319/documents/210422/default/

faich rheoleiddio, gan arwain at gomisiynu ymchwil gan Universities UK (UUK) i ddeall maint y baich rheoleiddio a wynebir gan aelodau UUK sydd wedi'u cofrestru gyda'r Swyddfa Myfyrwyr yn Lloegr[12].

7.44 Dengys y canfyddiadau fod ymatebwyr yn cytuno bod rheoleiddio yn **angenrheidiol a'u bod yn deall elfennau cadarnhaol** y dull rheoleiddio. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch rhai amodau lle'r oedd **y gost yn fwy na'r fantais**. Nododd yr ymatebwyr hefyd fod angen adnoddau sylweddol i ddeall a bodloni gofynion rheoleiddio a bod costau cyfle yn codi o'r baich rheoleiddio.

7.45 Un o argymhellion yr ymchwil oedd bod angen **mabwysiadu dull cyson o asesu'r baich** pan gynigir newidiadau er mwyn sicrhau bod y manteision posibl a'r camau lliniaru yn cael eu hystyried. Bydd angen i'r Comisiwn fonitro ac adolygu'r system reoleiddio i sicrhau bod y baich rheoleiddio yn cael ei leihau gymaint â phosibl.

7.46 Gan mai'r Comisiwn fydd y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am ariannu, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru; bydd yn bwysig i'r Comisiwn nodi datblygiad a gweithrediad diwygiadau addysg drydyddol rhyngwladol yn enwedig rhai fel TEQSA.

<u>Gofynion newydd</u>

7.47 Ar hyn o bryd mae sefydliadau yng Nghymru, sy’n dymuno i’w cyrsiau addysg uwch llawnamser perthnasol gael eu dynodi'n awtomatig at ddiben cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru, yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth reoleiddiol o dan Ddeddf 2015. Bydd y drefn gofrestru o dan Ddeddf 2022 yn cymryd lle'r system reoleiddio addysg uwch gyfredol y darperir ar ei chyfer gan Ddeddf 2015.

7.48 Mae'r drefn reoleiddio y darperir ar ei chyfer gan Ddeddf 2022, ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf honno, yn wahanol i Ddeddf 2015 mewn nifer o feysydd. Er mwyn deall manteision cychwynnol y gofrestr, yn gyntaf mae angen deall y dull a gymerwyd mewn perthynas â'r system reoleiddio, fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf 2015.

7.49 At ddibenion yr asesiad hwn, ystyriwyd y dull a gymerwyd gan CCAUC mewn perthynas â Deddf 2015, yn hytrach na'r dull y gallai'r Comisiwn ei gymryd wrth weithredu'r darpariaethau yn y Ddeddf honno a addaswyd er mwyn bod yn arferadwy gan y Comisiwn.

7.50 Mae'r canlynol yn manylu ar y gweithgareddau a ffurfiodd rannau allweddol o system reoleiddio Deddf 2015[13], a weithredwyd gan CCAUC, ac a ddisgwyliwyd gan y sefydliadau rheoleiddiedig. Mae nifer o'r gweithgareddau hyn yn ymwneud â materion nad ydynt o reidrwydd yn ofynnol o dan Ddeddf 2015, ond sy'n faterion yr ystyriodd CCAUC eu bod

[12] Moorhouse-regulatory-burden-report.pdf (universitiesuk.ac.uk)
[13] Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)

yn angenrheidiol i'w alluogi i gael darlun cyflawn o'r modd yr oedd sefydliadau rheoleiddiedig yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu:

- **Cais i gymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd** – Mae Deddf 2015 yn pennu (adran 4) na all y cyfnod y mae cynllun ffioedd a mynediad i gael effaith mewn cysylltiad ag ef fod yn fwy na 2 flynedd. O'r herwydd roedd y broses ymgeisio naill ai'n broses flynyddol neu ddwy flynedd lle mae sefydliadau'n gwneud cais i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad. Ar ôl cymeradwyo ei gynllun ffioedd a mynediad, ystyrir darparwr yn sefydliad rheoleiddiedig, sy'n arwain at ddynodi ei gyrsiau addysg uwch perthnasol yn awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.

- **Amrywio Cynllun Ffioedd a Mynediad** – Dyma broses, fel y darperir ar ei chyfer yn adran 9 o Ddeddf 2015 a rheoliad 9 o Reoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015 a wnaed yn unol â'r adran honno, lle caiff sefydliadau rheoleiddiedig wneud cais i ddiwygio agwedd ar gynllun ffioedd a mynediad cymeradwy. Gallai hyn gynnwys newidiadau i safleoedd darparu neu lefelau ffioedd er enghraifft.

- **Adolygiad Risg Sefydliadol** – Er mwyn mynd i'r afael â gofynion Deddf 2015, ac agweddau eraill yr oedd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i gael darlun llawn o'r ffordd y mae sefydliadau rheoleiddiedig yn gweithredu, roedd CCAUC yn cynnal proses ddwywaith y flwyddyn lle'r oedd yn asesu'r risg gyffredinol mewn sefydliadau rheoleiddiedig. Roedd yr adolygiadau risg hyn yn ystyried meysydd cyllid, llywodraethu a rheolaeth, myfyrwyr ac ansawdd, ystadau, ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth, a chyfeiriad strategol. Roedd CCAUC yn anfon llythyrau at y sefydliadau rheoleiddiedig, yn flynyddol fel arfer, yn nodi'r raddfa risg gyffredinol ac unrhyw feysydd lle'r oedd angen cymryd camau i leihau'r risg. Aed ati i fonitro'r ffordd y oedd y camau hynny'n cael eu cyflawni.

- **Datganiad Sicrwydd Blynyddol** – Yn yr un modd â'r adolygiadau risg sefydliadol, cyflwynwyd y broses flynyddol hon gan CCAUC i'w helpu i fynd i'r afael â gofynion Deddf 2015. Dyma broses flynyddol a ddefnyddiwyd i gael sicrwydd gan sefydliadau rheoleiddiedig ar draws ystod o feysydd gan gynnwys ynghylch gweithredu/cydymffurfio â Cynllun Ffioedd a Mynediad, goruchwylio ansawdd, cynaliadwyedd ariannol, a llywodraethu a rheoli.

- **Rhagolygon a monitro ariannol** – Yn ogystal â phroses y Datganiad Sicrwydd Blynyddol lle'r oedd CCAUC yn cael ystod o ffurflenni ariannol, gan gynnwys datganiadau ariannol archwiliedig, roedd CCAUC yn gofyn i sefydliadau rheoleiddiedig am ragolygon ariannol manwl a hynny'n flynyddol o leiaf. Roedd CCAUC hefyd yn ymgysylltu â Chyfarwyddwyr Cyllid bob chwarter o leiaf, ac yn gofyn

am wybodaeth ynghylch benthyca'r sefydliad, er mwyn cael sicrwydd ynghylch eu cynaliadwyedd ariannol.

- **Ymweliadau sicrwydd sefydliadol a sicrwydd ansawdd** – Dyma broses lle cynhaliwyd ymweliadau â sefydliadau rheoleiddiedig, fel arfer ar gylch tair blynedd, er mwyn cael dealltwriaeth fanylach o sut mae'r sefydliad yn sicrhau ei hun ar ystod o faterion cydymffurfio.

- **Adolygiadau Gwella Ansawdd** - Dyma'r broses adolygu cylchol (o leiaf bob chwe blynedd fel arfer) lle'r oedd CCAUC yn cael sicrwydd ynghylch ansawdd y ddarpariaeth mewn sefydliadau rheoleiddiedig. Gweithredwyd y broses gan QAA ar ran CCAUC, o dan drefniadau a wnaed gan CCAUC yn rhinwedd adran 17 o Ddeddf 2015.

- **Adrodd digwyddiadau difrifol** - Dyma broses lle rhoddwyd hysbysiad amser real am ddigwyddiadau a methiannau difrifol, er enghraifft am faterion rheoli ariannol, methiannau llywodraethu a rheoli, a diffyg cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddwyr eraill. Roedd y broses hon yn gallu sbarduno camau i ddatrys unrhyw faterion.

- **Cwynion am sefydliadau** – Dyma broses lle'r oedd unigolion neu grwpiau o unigolion yn gallu cwyno am amheuaeth o ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio CCAUC. Roedd sefydliadau'n cael eu cynnwys yn y broses hon pan oedd CCAUC wedi derbyn cwyn ac yn gofyn i'r sefydliad am wybodaeth ynghylch y mater. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn gallu sbarduno ymchwiliad gan y sefydliad neu CCAUC ac arwain at gamau i ddatrys y mater.

7.51 Mae gofynion newydd ar wyneb Deddf 2022, ac yn yr is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf honno, sy'n sail i'r drefn reoleiddio y bydd angen i'r Comisiwn ei datblygu. Ystyrir mai'r prif newidiadau, o gymharu â gofynion Deddf 2015, yw'r amodau cofrestru yn ymwneud â'r canlynol:

- Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr
- Cynlluniau Diogelu Dysgwyr
- Yr amodau cofrestru parhaus mewn perthynas â chyfle cyfartal
- Yr amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus mewn perthynas â lles myfyrwyr a staff

7.52 Mae'r gofrestr, a'r drefn reoleiddio, fel y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf 2022, yn gofyn am weithredu amodau cofrestru newydd. Ni fydd yn ofynnol cael Cynllun Ffioedd a Mynediad mwyach ac yn lle hynny bydd angen i ddarparwyr cofrestredig gydymffurfio ag ystod o amodau cofrestru parhaus. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau maint y baich ar ddarparwyr addysg uwch a reoleiddir ar hyn o bryd yn y tymor hwy, ond bydd angen i'r Comisiwn fonitro ac adolygu'r drefn reoleiddio i ysgafnhau'r baich rheoleiddio gymaint â phosibl.

7.53 Nod **Cynlluniau Diogelu Dysgwyr**, fel y darperir ar eu cyfer yn adran 126 o Ddeddf 2022, yw amlinellu sut y bydd darparwr yn diogelu buddiannau dysgwyr lle mae dysgwyr yn astudio cyrsiau perthnasol (fel y'u diffinnir yn adran 126(10) o Ddeddf 2022) sy'n peidio â chael eu darparu neu lle mae dysgwyr yn dymuno trosglwyddo i gwrs arall. Rhagwelir y bydd y cynlluniau'n rhoi eglurder i ddysgwyr os nad ydynt yn gallu parhau i astudio gyda darparwr gan fod y darparwr yn rhoi'r gorau i weithredu neu'n methu parhau i addysgu dysgwyr (e.e. myfyrwyr rhyngwladol os collir Trwydded Fisa Myfyrwyr UKVI neu gyrsiau perthnasol penodol os bydd cyfleusterau'n cael eu colli'n annisgwyl).

7.54 Bydd pob darparwr cofrestredig yn ddarostyngedig i amod cofrestru parhaus mandadol (adran 31(1)(g)) lle bydd yn rhaid iddo, os rhoddwyd hysbysiad iddo o dan adran 126(1), gael cynllun diogelu dysgwyr ar waith (ar neu cyn y dyddiad a bennir yn yr amod), a gymeradwywyd gan y Comisiwn, a gweithredu'r cynllun hwnnw.

7.55 Fel rhan o Fframwaith Safonau Addysg Uwch Awstralia (Safonau Trothwy) 2021[14], mae'r safonau trothwy[15] yn cynnwys rhwymedigaethau ar gyfer darparwyr i sicrhau bod cynlluniau credadwy yn eu lle ar gyfer parhad busnes a bod adnoddau digonol ar gyfer rheolaethau ariannol a ffioedd dysgu i liniaru'r anfantais i fyfyrwyr nad ydynt yn gallu symud ymlaen mewn cwrs astudio oherwydd newidiadau annisgwyl i weithrediadau'r darparwr addysg uwch. Wrth ddatblygu gofynion y cynlluniau amddiffyn dysgwyr, gall y Comisiwn ystyried defnyddio enghreifftiau eraill o ddiwygiadau addysg drydyddol.

7.56 Mae cydymffurfio â'r gofynion yn y **Cod Ymgysylltu â Dysgwyr** yn amod cofrestru parhaus mandadol sy'n berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn rhinwedd adran 31(1)(h) o Ddeddf[16] 2022, sydd â'r bwriad o sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli a bod dysgwyr yn gallu rhoi eu barn i ddarparwyr am ansawdd yr addysg y maent yn ei derbyn a chymryd rhan ym mhenderfyniadau'r darparwyr. Rhagwelir y bydd y cod yn fuddiol i ddysgwyr drwy nodi disgwyliadau o ran sut y dylai darparwyr ymgysylltu â dysgwyr ac ystyried 'llais y dysgwr'. Dylai hyn alluogi darparwyr i ddeall anghenion dysgwyr yn well.

7.57 Bydd yr amod cofrestru cychwynnol a'r amod cofrestru parhaus mandadol ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr ar gyfer cefnogi a hyrwyddo **lles ei fyfyrwyr a'i staff**, yn sail i gadw dysgwyr a chyrhaeddiad dysgwyr, ac yn cyfrannu at gyflawni ystod o nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys "Cymru iachach", "Cymru sy'n fwy cyfartal", a "Cymru lewyrchus".

---

[14] Cofrestr Ffederal o Ddeddfwriaeth - Fframwaith Safonau Addysg Uwch (Safonau Trothwy) 2021

[15] Fframwaith Safonau Addysg Uwch (Safonau Trothwy) 2021 | Asiantaeth Ansawdd a Safonau Addysg Drydyddol (teqsa.gov.au)

[16] Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (legislation.gov.uk_

7.58 Darparodd y Swyddfa Myfyrwyr, sy'n rheoleiddio addysg uwch yn Lloegr, ddatganiad o ddisgwyliadau diwygiedig[17] yn ymwneud â hyfforddiant staff a myfyrwyr, a pholisïau i hwyluso datgelu aflonyddu a chamymddwyn rhywiol ac adrodd amdanynt. Comisiynodd y Swyddfa Myfyrwyr werthusiad ar effaith gychwynnol cyhoeddi'r datganiad o ddisgwyliadau[18]. Dangosodd canlyniadau'r gwerthusiad hwn nad oedd y 'datganiad o ddisgwyliadau' wedi bod yn ddigonol ar gyfer newid yn ei ffurf bresennol. Argymhellodd yr adroddiad fod **y Swyddfa Myfyrwyr yn gwneud atal ac ymateb i aflonyddu a chamymddwyn rhywiol** yn ddyletswydd orfodol ac yn rhan o'u fframwaith rheoleiddio. Amlygodd yr adroddiad hefyd **nad oes data digonol ar lefel sector a darparwyr unigol i lywio ac asesu effeithiolrwydd ymyriadau**. Mae hyn wedi arwain at ymgynghoriad[19] gan y Swyddfa'r Myfyrwyr ar ddull newydd arfaethedig o reoleiddio aflonyddu a chamymddwyn rhywiol sy'n effeithio ar fyfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch cofrestredig.

7.59 Mae Llywodraethau Awstralia a Seland Newydd *ill dau* wedi darparu fframwaith sy'n blaenoriaethu lles eu myfyrwyr a'u staff yn y sector addysg drydyddol. Mae *Fframwaith Safonau Addysg Uwch TEQSA Llywodraeth Awstralia (Safonau Trothwy)* yn cynnwys manylion cyfrifoldebau sefydliadol ar gyfer llesiant staff, cefnogi llesiant a diogelwch myfyrwyr[20]. Mae hyn yn ei gwneud **yn ofynnol i ddarparwyr ddarparu cyngor amserol a chywir** ar fynediad at wasanaethau cymorth i fyfyrwyr a **hyrwyddo a chreu amgylchedd diogel ar y campws ac ar-lein**. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr nodi tystiolaeth ar sut maent yn cyflawni hyn. Mae Cod Ymarfer Addysg Seland Newydd (Gofal Bugeiliol Dysgwyr Trydyddol a Rhyngwladol) 2021[21] yn sicrhau bod dysgwyr trydyddol a rhyngwladol sydd wedi cofrestru gyda darparwyr addysg Seland Newydd yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi. Efallai y bydd y Comisiwn am ystyried adolygu enghreifftiau eraill o ddiwygiadau addysg drydyddol er mwyn llywio arferion gorau yng Nghymru.

7.60 Bydd yr amodau cofrestru parhaus mandadol mewn perthynas â **chyfle cyfartal** (adran 33 o Ddeddf 2022 yn helpu i ysgogi gwelliant o ran mynediad, cadw, cyrhaeddiad a dilyniant ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

7.61 Fel y nodwyd yn flaenorol (gweler paragraff 6.37), mae adran 108 o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried gosod telerau ac amodau ar gyllid a ddarperir i ddarparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru mewn perthynas â nifer o'r amodau cofrestru parhaus mandadol, gan gynnwys cyfle cyfartal. Felly, rhagwelir y bydd y gofynion yn berthnasol i

[17] Datganiad o ddisgwyliadau - Swyddfa Myfyrwyr
[18] Gwerthusiad o Effaith Adroddiad terfynol y Datganiad Disgwyliadau (officeforstudents.org.uk)
[19] Ymgynghoriad ar ddull newydd o reoleiddio aflonyddu a chamymddwyn rhywiol mewn addysg uwch yn Lloegr - Swyddfa Myfyrwyr
[20] Nodyn cyfarwyddyd: Lles a diogelwch | Asiantaeth Ansawdd a Safonau Addysg Drydyddol (teqsa.gov.au)
[21] pastoral-care-code-of-practice-2021-english.pdf (nzqa.govt.nz)

ystod ehangach o ddarparwyr na gofynion presennol y Cynllun Ffioedd a Mynediad, ac felly'n effeithio ar fwy o ddysgwyr.

7.62 Yn y pen draw, bydd yr amod hwn yn fuddiol i ddysgwyr drwy wella canlyniadau o ran cyflogaeth ac astudio pellach ac yn cyfrannu y nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 'Cymru sy'n fwy cyfartal'[22]

7.63 Mae'r gofynion newydd ar wyneb Deddf 2022, ac yn y rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno, yn rhan o'r fframwaith strategol y bydd angen i'r Comisiwn ei ddatblygu er mwyn sefydlu'r gofrestr a gweithredu'r trefniadau rheoleiddio cysylltiedig.

7.64 Mae Deddf 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i ddarparwyr addysg uwch mewn perthynas ag ystod o faterion yn ymwneud â'r gofrestr a'r trefniadau rheoleiddio cysylltiedig. Rhagwelir y bydd y Comisiwn hefyd yn darparu gwybodaeth am y trefniadau rheoleiddio a goblygiadau a manteision y trefniadau hynny i ddysgwyr, y sector addysg drydyddol ehangach a chynrychiolwyr eraill.

## 8. Asesiad Effaith Integredig

8.1 Gellir dod o hyd i'r Asesiad Effaith Integredig a gynhyrchwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, yma.

## 9. Asesu o'r gystadleuaeth

9.1 Mae prawf hidlo’r gystadleuaeth wedi'i gynnal. Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd cwmnïau yng Nghymru.

## 10. Adolygiad ar ôl gweithredu

10.1 Gan nad yw'r gofrestr wedi'u gweithredu eto, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ddatblygu a mireinio'r system gofrestru.

10.2 Bydd disgwyl i'r Comisiwn gynnal ei ymgynghoriad a'i asesiadau effaith ei hun fel rhan o'r broses ddatblygu. Rydym yn rhagweld y bydd angen i'r Comisiwn ganolbwyntio ar ddatblygu ei ddisgwyliadau ar gyfer gweithgareddau darparwyr sy'n gysylltiedig ag amodau cofrestru newydd Deddf 2022 e.e. y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr etc. Rhagwelir hefyd y bydd y costau ar gyfer cyflwyno'r gweithgareddau hyn yn cael eu pennu i sicrhau llinell sylfaen.

10.3 Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal gwerthusiad ar ôl gweithredu, ac yn yr un modd â Deddf 2015 bydd yn parhau i weithio gyda'r Comisiwn, darparwyr a chyrff cynrychioliadol.

[22] Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion | LLYW.CYMRU

10.4 Bydd angen cynllun hirdymor i gasglu tystiolaeth o gostau a manteision er mwyn darparu asesiad gwerth am arian pan fydd y gofrestr, a'r trefniadau rheoleiddio cysylltiedig, wedi'u sefydlu. Bwriedir i'r rhain gael eu hadolygu ar gyfnodau o dair blynedd a phum mlynedd.